

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 484 • Ionawr 2018 • 50c

Hwyl a Gŵyl

Yn dilyn llwyddiant cynhyrchiad cyntaf Clwb Drama Crawia y llynedd, mawr fu'r disgwyl am yr ail sioe oedd i'w pherfformio dros gyfnod y Nadolig yn Neuadd Ogwen. Enw'r sioe oedd "Brenhines y Crawia" ac 'roedd y

frenhines hon yn rheoli'r tywydd o gopa mynydd Crawia uwchlaw'r cymylau ers blynnyddoedd. Ond 'roedd hi wedi cael llond bol ar bobl Cymru yn cwyno gymaint am y tywydd, felly, penderfynodd roi 'heatwave' ym mis Rhagfyr!

Ond, yn sgîl y gwres mawr daw newyddion drwg o begwn y gogledd – mae'n rhy boeth i'r ceirw hedfan felly fedr Siôn Corn ddim dod!

A dyna osod yr hinsawdd - yn llythrennol!- ar gyfer

chwyrlligwgan o sioe, a'n cipiodd i fyd o ledrith a rhamant, hwyl a helynt, a hyn oll dan arweiniad plant ifanc y Dyffryn.

Gyda chast o dros 70, o 6 i 12 oed, 'roedd cynhyrchu sioe gwerth ei halen yn mynd i fod yn dipyn o gamp. Ond dyna'n union a wnaed. Dyma sioe a hanner a'n cludodd i fyd rhyfeddol dychymyg plentyn, mewn môr o gerddoriaeth wreiddiol heintus, a sgript llawn hiwmor a direidi. Pan ganwyd y gân olaf, a llond llwyfan o blant yn ei morio hi, 'roedd rhyw gynhesrwydd neilltuol yn llenwi'r neuadd. Oedd, roedd Brenhines y Crawia yn wir wedi taenu ei hud dros y Dyffryn.

Diolch i Angharad Llwyd a'i chriw am eu holl waitth.



Gwasanaeth Nadolig Cymunedol y Dyffryn

Y mae'r gwasanaeth bellach yn rhan sefydlog o ddathliadau'r Wyl yn y Dyffryn, ac ar Ragfyr 17eg eleni braf oedd gweld Capel Jerusalem yn llawn o gyfoeth o dalent y fro. Mewn cyfarfod neilltuol cafwyd eitemau gan Gôr Meibion y Penrhyn, o dan arweiniad Owain Arwel Davies a chyfeiliant Frances Davies, Côr y Dyffryn, o dan arweiniad Menai Williams, a Chôr Ysgol Dyffryn Ogwen o dan arweiniad Delyth Humphreys a chyfeiliant Owain Morgan, Thalia Lichtenstein a Gwydion Rhys, ynghyd â chyfraniadau unigol cofiadwy gan John Ogwen, Angharad Llwyd Beech, Lowri Roberts, Nerys Williams, Neville Hughes, Caleb Rhys, Elen Haf a Gwydion



Rhys. Cafwyd canu cynulleidfaol rhagorol i gyfeiliant grymus Beti Rhys ar yr organ, ac 'roedd englyn arbennig gan Dilwyn Owen ar y rhaglen. Diolch iddynt i gyd am ein hatgoffa o wir ystyr y Nadolig.

Gwnaethpwyd casgliad o £360.00 tuag at ymgyrch Corwynt Cariad yn ynysoedd y Ffilipinas. A'r geiriau a oedd yn atseinio wrth i ni adael y capel y noson honno oedd "y gora eto". Diau fod hynny'n wir!

Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 600490

l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

☎ 07940 905181

dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

☎ 601592

fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard

☎ 01248 602119

orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH

☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan

Walter a Menai Williams.

Y golygydd ym mis Chwefror fydd

Fiona Cadwaladr Owen,

Bryn Meurig Bach,

Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW.

01248 601592

fionaowen28@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn

dydd Mercher, 31 Ionawr

os gwelwch yn dda.

Plygu **nos Iau, 15 Chwefror**, yng

Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan

Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths

elgangriffiths@btinternet.com

☎ 01970 627916

Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen

Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Cig Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

SPAR, Bethesda

Siop y Post, Rachub

Bangor

Siop Forest

Siop Menai

Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon

Palas Print

Porthaethwy

Awen Menai

Rhiwlas

Garej Beran

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o'r
gloch a hanner dydd

Dyddiadur y Dyffryn

Ionawr

19/20 "Digon o Sioe". Panto Cwmni

Drama Llechen Las. Neuadd

Ogwen. (WED'I OHIRIO)

24 Cymhorthfa Rheinallt Puw.

Gorffwysfan. 4.00 - 6.00.

25 Noson o Storiâu Santes Dwynwen

gydag Angharad Wynne. Tŷ Hyll

am 7.00.

30 Cangen Plaid Cymru Dyffryn

Ogwen. Cefnfaes am 7.00

30 Noson Bingo a Raffi Fawr Santes

Dwynwen. Neuadd Talgai

Llandygai am 7.00.

Chwefror

09 "Digon o Sioe". Panto Cwmni

Drama Llechen Las. Neuadd

Ogwen am 7.00

10 "Digon o Sioe". Panto Cwmni

Drama Llechen Las. Neuadd

Ogwen am 2.30.

10 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y

Brenin. 10.00 - 12.00

10 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.

9.30 - 1.00.

12 Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen.

Cynrig Hughes. Festri Jerusalem

am 7.00.

13 Te Crempog yn Eglwys y Gelli,

Tregarth am 2.00

15 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am

6.45.

24 Gweithdy Enwau Lleoedd Dyffryn

Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 -

4.00.

28 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru

Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

Neuadd Ogwen

DIGWYDDIAD PWYSIG

Gweithdy
Enwau Lleoedd
Dyffryn Ogwen

Dydd Sadwrn, 24 Chwefror

rhwng 10.00am a 4.00pm

Dyma gyfle i gofnodi a gwarchod
enwau lleoedd yr ardal i'r dyfodol.
Dewch ag unrhyw enwau sydd yn
eich cof neu dewch â nhw ar fap os
medrwch.

Trefnir gan Gymdeithas Enwau
Lleoedd Cymru

Rhoddion i'r Llais

- £5.00 Gwilym a Barbara Owen, Rhos y Nant, Bethesda.
- £5.50 Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan.
- £6.50 D. & N. Griffiths, 46 Abercaseg, Bethesda.
- £5.00 R. & E. Hughes, Pant, Bethesda.
- £10.00 Er cof am Olly Cross, Adwy'r Nant.
- £28.00 Jennie Jones, 11 Bryn Caseg, Bethesda.
- £300 Cyngor Cymuned Pentir.
- £20.00 Gomer Davies, Talyscae, Tregarth.
- £20.00 Gwilym Rees Evans, Karen, Tom a'r teulu er cof am William John Evans a Glenys Evans.
- £10.00 Mrs. Arfona Edwards, Maes y Garnedd, Bethesda.
- £50.00 Er cof am Caeron a Nancy Roberts, Erw Faen, Tregarth oddi wrth Mrs Jois Snelson, Dinbych a Mr Bryn Roberts, Caerdydd
- £22.00 Mrs Susan Jeffries, Caerdydd
- £20.00 Mr Ken Jones, Edgware, Llundain
- £10.00 Mrs Mair Jones, Windsor
- £10.00 Dr Elwyn Hughes, Ystradgynlais
- £10.00 Mr DW Thomas, Barrow in Furness
- £5.00 Dr Gwen Gruffudd, Rhostryfan

Diolch yn fawr.

Caerhun a Glasinfryn

Bingo Nadolig

Cynhaliwyd noson Bingo Nadolig lwyddiannus iawn yn y Ganolfan ar 15 Rhagfyr gan godi £202.25c, a fydd yn cael ei ddefnyddio tuag at Ardd Synhwyraidd Dementia yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn i bawb am wneud y noson yn llwyddiannus trwy eich cyfraniadau tuag at y bingo, raffl, tombola a bwyd. Diolch yn arbennig i Mary ac Ann am drefnu'r cyfan.

Cylch Glasinfryn

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cylch ar Chwefror 7, am zyp, pryd y disgwylir Dr Catherine Bale, Oncolegydd yn Ysbyty Gwynedd, i roi sgwrs anffurfiol a thrafodaeth am gancr mewn gwragedd. Croeso cynnes iawn i bawb.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Dymuna Cyfeillion Ysbyty Gwynedd ddiolch yn fawr iawn i Gôr Traeth Lafan am eu rhodd hael o £800.00 tuag at waith y Cyfeillion. Yn y llun, gwelir Ceri Dart a Gwenda Davies, aelodau o'r Côr, yn cyflwyno'r siec i gadeirydd y Cyfeillion, Joe Hughes.



Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Ionawr

- £30.00 (78) Dafydd Roberts, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas.
- £20.00 (160) Audrey Griffith, Talgarreg, Llandysul.
- £10.00 (73) Carol Jones, Craigle, Rhiwlas.
- £5.00 (77) Miss. J. B. Williams, Porthaethwy.

Os am ymuno, cysylltwch â
Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £20
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)



CYMRAG

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn 01492 641798
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

Ysgol Bodfeurig



Entrepreneuriaid Bodfeurig

Bu entrepreneuriaid Dosbarth Ogwen yn brysur iawn dros y bythefnos cyn y Nadolig yn cychwyn busnes eu hunain. Yn ystod y bythefnos, bu'r dosbarth yn dysgu am elw a cholled, ffyrdd gwahanol o hysbysebu eu cynnyrch, ac yna yn creu a gwerthu eu cynnyrch. 'Roedd y prosiect yn un llwyddiannus iawn gan fod y dosbarth nid yn unig wedi llwyddo i wneud elw o dros £100, ond hefyd wedi ddatblygu llawer iawn o sgiliau pwysig megis iaith, rhifedd a TGCh, yn ogystal â chydweithio, a meithrin sgiliau entrepreneuraidd.

Tren Sion Corn

Cafodd dosbarth Idwal ymweld â Siôn Corn ar y rheilffordd yn Llanberis. 'Roedd cyffro mawr ar y tren wrth i'r plant ganu caneuon Nadoligaidd, a meddwl pa degan yr oeddynt eisiau gofyn i Siôn Corn amdano. Bore gwych er gwaethaf y glaw!

Gymnasteg

Llongyfarchiadau i bob un o dîm gymnasteg yr ysgol fu'n cystadlu yn ddiweddar yng Nghaernarfon. Cafodd y tîm dechreuwyr a'r tîm canolradd ddiwrnod gwych yn cystadlu - nifer fawr am y tro cyntaf erioed mewn gymnasteg! Da iawn chi am wneud gwaith gwych yn cynrychioli'r ysgol!



Nadolig

Bu diwedd y tymor yn un prysur dros ben gyda ffair Nadolig, ffair lyfrau, cinio Nadolig ac wrth gwrs y cyngerdd. Mae gennym lawer o bobl i ddiolch iddynt - diolch i bawb gefnogodd ein ffeiriau a'r cyngerdd, diolch i Anti Anwen ac Anti Dana am ginio bendigedig ac wrth gwrs diolch i'r plant am wneud gwaith gwerth chweil yn y cyngerdd - Santa ar Streic!

Newyddion Cyngor Ysgol!

Dydd Gwener y 15fed o Ragfyr penderfynasom ni fel cyngor gynnal diwrnod siwmpwr Nadolig i gasglu pres i Hospis Dewi Sant. Casglwyd £50 tuag at yr achos da, - diolch i bawb am eu cyfraniad.

Yn ystod ein sioe Nadolig trefnwyd raffl fawr er mwyn casglu pres at ein offer coginio newydd. 'Roedd llawer o wobrau ar gael a hoffem ddiolch i fusnesau lleol am eu rhoddion. Casglwyd elw gwych o £160 tuag at ein gegin.

Ar ddiwrnod gwlyb cyn y Nadolig buom yn brysur fel Cyngor yn codi tatws o ardd yr ysgol, a gwerthu rhai ohonynt i bobl y pentref yn ystod ein cyngerdd Nadolig.

Tan y tro nesaf, Mabli a Nel

Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr y Llais gan bawb yn Ysgol Bodfeurig. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall brysur, llawn hwyl a dysgu!

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Eglwys St. Ann a St. Mair

Ionawr 21: Boreol Weddi
Ionawr 28: Cymun Bendigaidd
Chwefror 4: Gwasanaeth Teuluol
Chwefror 11: Cymun Bendigaidd
Chwefror 18: Boreol Weddi

Mae'r gwasanaethau boreol bob bore Sul am 9.45 y.b. Mae croeso cynnes i chwi oll ymuno â ni.

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd. Brysiwch wella. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref cysylltwch a'r Parchedig Christina McCrea (Bangor 372249)

Hoffem ddiolch i bawb am eu cerfnogaeth drwy gydol 2017; a dymunwn Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion yr ardal.

BYSUS D. G. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Pentir

Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf,
Pentir, LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Eglwys St Cedol, Pentir
Dathlu'r Nadolig
Nos Sul 17 Rhagfyr cafwyd noson i ddathlu Gŵyl y Nadolig, o dan arweiniad Y Parchedig Christina McCrea, gyda datganiadau cerddorol ar yr Organ a'r Clarinet gan Sharon Williams a Sioned Roberts, a Calypso. Cafwyd unawdau a deuawdau gan Helen ac Eirwen a datganiadau llafar gan Christina, Martin, Tom, Ann, Eirwen a Nia. Ymunodd y gynulleidfa i ganu carolau traddodiadol, ac i ddiweddu'r noson mwynhawyd mins peis a gŵin cynnes. Diolch i bawb.

Clwb 100 Mis Rhagfyr 2017
1af Rhif 60 Laura Hosker, Deiniolen
2ail Rhif 8 J C Rees, Pentir
3ydd Rhif 25 Helen Bradley, Rhiwlas

Gwellhad
'Rydym yn anfon ein cofion at Y Parchedig Martin Riley, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn llawdriniaeth. Brysiwch wella, a gobeithio y cewch ddod adref yn fuan.

Gwasanaethau'r Sul
Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45yb. Croeso cynnes i chwi i ymuno â ni yn y gwasanaethau:
21.1.18 Cymun Bendigaid
28.1.18 Boreol Weddi
4.2.18 Cymun Teuluol
11.2.18 Boreol Weddi
18.2.18 Cymun Bendigaid

Cysgodfan bws
Hoffai rhai o drigolion Pentir sydd yn teithio ar y bws lleol ddiolch i Gyngor Cymuned Pentir ac i'r Cynghorydd Cynrig Hughes am sicrhau cael cysgodfan bws ger Rhyd y Groes.

Symud cartref
Dymunwn bob hapusrwydd i Anwen Thomas, gynt o Alban, Rhyd y Groes. Mae Anwen bellach wedi symud i fyw i Gaernarfon. Paid â chadw'n ddiarth Anwen.

Croeso
Yn yr un modd hoffem groesawu teulu sydd wedi symud o Tŷ Canol, Rhiwlas i Rhyd y Groes. Gobeithio y bydd John, Beverley a Steven Rowlands yn hapus yn eu cartref newydd.

Deffibriliwr
Bellach mae'r diffibriliwr wedi ei osod

yn y blwch ffôn gynt ger sgwâr Pentir a'r hyfforddiant wedi bod. Diolch i'r grŵp cymuned lleol "Parchu Pentir" am eu dyfalbarhad yn codi arian i sicrhau bod gan yr ardal y cyfarpar holl bwysig hwn.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Marteg Dafydd ar ddod yn ail drwy Gymru yng nghystadlaethau Gaeafol Cymru yn Abertawe ddechrau Rhagfyr gyda nofio 100m dull cefn. Pob lwc iddi hefyd yn Sheffield ym mis Ionawr ac i'w brawd Cedol sydd hefyd yn cystadlu.

Llysgennad Chwaraeon
Llongyfarchiadau i Cedol Dafydd am gael ei ddewis yn Lysgennad Chwaraeon Aur i gynrychioli Gwynedd ac am gael lle eto eleni yn Academi Triathlon Cymru.

'Pobl a'u Gerddi'
Difyr iawn oedd gweld gardd unigryw o Rhyd y Groes, Pentir ar raglen S4C yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Iwan a Lisa Thomas 2, Rhyd y Groes am drawsnewid eu gardd dros gyfnod o flynyddoedd gan gyrraedd safon mor uchel. Mae'r ardd wedi arfer croesawu ymwelwyr drwy 'Gynllun Cenedlaethol Gerddi Agored', gan gyfrannu arian at achosion da. Gwych oedd gweld eu llafur yn cael ei gydnabod yn genedlaethol.

CHWILAIR

A	A	B	U	H	C	A	R	F	E	R	T	N	E	P	Y	P	O	I	S
W	F	H	R	I	E	J	L	C	W	R	W	O	G	W	E	N	C	M	B
V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W
T	A	F	A	R	N	Y	T	A	R	W	H	U	Z	M	X	V	I	A	D
D	U	N	O	C	N	A	R	F	F	G	S	A	W	G	M	N	R	A	P
A	A	U	Q	U	A	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	A	G	R	G	H	C
U	I	M	W	N	O	F	Y	R	I	A	S	Z	B	U	T	F	A	D	X
U	R	P	W	R	H	C	F	Q	H	W	E	I	H	O	Y	E	N	E	G
E	O	O	M	H	E	P	T	I	T	C	N	B	B	C	U	U	A	J	P
L	L	T	M	I	V	V	D	C	S	O	B	B	F	R	F	O	F	G	J
V	L	I	I	R	R	X	I	M	G	E	H	T	T	O	S	K	Y	O	P
W	L	R	C	M	K	C	B	I	O	R	R	C	X	V	R	Y	R	H	S
T	G	M	R	E	F	Y	O	J	D	Z	H	E	B	C	W	O	T	S	C
R	A	A	I	X	N	N	I	L	X	J	J	M	N	B	W	T	E	X	M
D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C
T	D	G	W	D	W	R	Y	M	Y	N	Y	D	D	S	L	Z	E	B	E
A	H	T	R	A	G	E	R	T	D	D	R	A	R	Y	T	N	A	P	J
K	E	T	T	E	N	A	E	J	N	N	A	J	C	L	N	L	R	V	O
G	J	A	D	S	E	H	T	E	B	Y	D	N	E	H	C	O	R	C	P
W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	X	E	U	G	H

Yn y chwilair y mis yma mae ENW DEUDDEG O HYSBYSEBWYR YN Y LLAIS. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn IONAWR 31. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll, gan obeithio fod yr Ŵyl wedi bod yn un ddedwydd i bob un ohonoch. Dyma ni yn dechrau ar flwyddyn arall o chwilota am atebion yn y chwilair, a gobeithio y cewch flwyddyn lwyddiannus a mwynhad. **Dyma atebion Rhagfyr:** Botwnog, Corris, Croesor, Deiniolen, Gellilydan, Llandygai, Llanllfni, Maentwrog, Nebo, Sarn Meyllteyrn, Talsarnau, Tudweiliog. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Mair Jones, Ffordd Bangor; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge, Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Myfanwy Jones, Gaerwen. Helen Jones, Erw Las, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth BNuckley, Tregarth. **Enillydd Rhagfyr oedd:** Marilyn Jones, 1 Glanffrydlas, Bethesda.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2018

10 Chwefror - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
 03 Mawrth - Cefnfaes - Plaid Cymru.
 10 Mawrth - Cefnfaes - Plaid Lafur
 24 Mawrth - Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.
 14 Ebrill - Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
 21 Ebrill - Cefnfaes - Cymdeithas Capel Jerusalem.
 28 Ebrill - Cefnfaes - Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
 12 Mai - Cefnfaes - Cymorth Cristnogol.
 12 Mai - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
 19 Mai - Cefnfaes ddim ar gael.
 30 Mehefin - Neuadd Ogwen - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
 14 Gorffennaf - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
 08 Medi - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
 29 Medi - Cefnfaes - Plaid Cymru.
 27 Hydref - Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
 24 Tachwedd - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

IONAWR 23, 30
 CHWEFOR 13 a 27
 am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

**Nos Lun, 12 Chwefror
 am 7.00 yh**

yn Festri Capel Jerusalem

Cynrig Hughes

Hanes Sgwâr Pentir

a Rhyd-y-Groes

**£1.50 wrth y drws neu
 am ddim i aelodau**

Carmel Llanllechid

Te Bach

Dydd Llun, 29 Ionawr

2.30 - 4.00

Croeso i bawb!

CYMHORTHFA RHEINALLT PUW

Gorffwysfan

Dydd Mercher

24 Ionawr 2018

4.00 - 6.00

Neuadd Talgai, Llandygai

Noson Bingo a Raffl Fawr Santes Dwynwen

**Nos Fawrth, 30 Ionawr,
 am 7.00**

Er budd Cronfa Eglwys Sant Tegai

Tŷ Hyll

ger Betws y Coed

25 Ionawr am 7.00

Noson o Straeon Santes Dwynwen

Ymunwch â'r storiwraig
 Angharad Wynne am noson
 o straeon gwerin a chaneuon
 yng ngolau kannwyll

Bydd lluniaeth ar gael am rodd
 fechan i Gymdeithas Eryri
 Archebwch le yn gynnar gyda
 Claire - 01286 685498

claire@snowdonia-society.org.uk

Eglwys y Gelli, Tregarth Te Crempog

**13 CHWEFOR
 AM 2.00YP.**

Marchnad Ogwen

Chwefror 10fed

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Mawrth 10fed

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Ebrill 14eg

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Bwydydd, Creffttau, Lleoli

www.marchnadogwen.co.uk
 Facebook

CAFFI COED Y BRENIN

BORE COFFI NSPCC

SADWRN, 10 CHWEFOR
 10.00 - 12.00

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853
 (nev_hughes@btinternet.com)

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen CYFARFOD BLYNYDDOL

yng Nghefnfaes

**Nos Fercher, 28 Chwefror
 am 7.00 yh**

Siaradwr Gwadd:

Aaron Wynne

(Trefnydd Etholaeth Arfon)

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Clwb Rhiwen

Aeth aelodau'r clwb i'r Glyntwrog , Llanrug am eu cinio Nadolig. Daeth criw reit dda yno a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch i Ann am drefnu ac am y rhodd gafodd pob un ohonom ganddi. Eleni fe fyddwn yn dilyn yr un patrwm, cyfarfod ar yr ail a'r pedwerydd Ddydd Mercher o'r mis am 2 o'r gloch. Croeso i aelodau newydd.

O Gyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cysgodfan Rhiwlas – Yn dilyn cyfarfod â swyddog o Gyngor Gwynedd yn Rhiwlas, mae caniatad bellach wedi ei roi i osod Cysgodfan Bws ar ganol yr allt, ger tai CCG ar leoliad yr hen ffôn BT, cyn belled nad oes gwrthwynebiad gan breswylwyr y tai gerllaw. Penderfynwyd fod Rhian a Hefin am ymweld â phob tŷ yn y stâd i hysbysu trigolion a chadarnhau nad oes gwrthwynebiad. Bydd rhaid nodi unrhyw wrthwynebiad trwy lythyr i'r Clerc.

Cefn y Braich, Rhiwlas – Derbyniwyd ymateb yn dilyn ein cŵyn yn nodi fod angen ail sefydlu y ffôs ar ymylon y llwybr i sicrhau na fydd yn gorlifo ac yn creu rhwystr i gerddwyr. Bydd y gwaith yma yn cael ei roi ar y cynllun gwaith yn ystod y misoedd nesaf. Parcio anghyfreithlon – Yn dilyn sawl cŵyn yn yr ardal am barcio anghyfreithlon, mae'r swyddogion yn mynd i ymweld â'r ardal yn amlach. Mae croeso i unrhyw un gysylltu â'r Adran Gorfodaeth parcio 01286 6792178 os oes ceir yn parcio yn anghyfreithlon neu yn creu rhwystr.

Merched y Wawr

Trefnwyd Noson o Garolau gan y gangen budd y Neuadd a gwahoddwyd Seindorf Arian Deiniolen i ddod atom a daeth rhyw ddwsin ohonynt draw gyda Dafydd Evans, braf hefyd oedd gweld nifer o ieuenctid gyda hwy. Roedd y Neuadd wedi'i haddurno yn hyfryd ac yn creu awyrgylch Nadoligaidd. Diolch i'r canlynol: i Cadi ac Elfyn am ddod â'r coed Nadolig i'r Neuadd, i Cynrig am arwain y noson a rhoi cefndir y carolau inni, i Cian Iolen am gytuno i ganu, i Helen Bradley ac Eurwen Williams am ddeuawd amserol ac i Sharon Williams am gyfeilio iddynt Ar yr hanner amser cafwyd lluniaeth ysgafn a diolch i aelodau'r gangen am drefnu hyn. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson ac am ymuno yn y canu. Gwerthfawrogwyd presenoldeb aelodau'r band ac am eu parodwydd i gynnal y noson a sicrhau ein bod yn cael noson dda a'n rhoi yn ysbryd yr ŵyl, does dim byd tebyg i ganu "O deuwch Ffyddloniaid" i gyfeiliant band pres. Yn olaf diolch i Linda am wneud yr holl drefniadau

ac fe dalodd Dafydd deyrnged i'w thad a fu'n aelod o'r band am dros hanner can mlynedd.

Cydymdeimlo

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd o 100 Cae Glas yn 79 mlwydd oed bu farw John Eifion Lewis ac anfonwn ein cofion at ei briod, Leah a'r teulu. Bu'r gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor a derbynwyd rhoddion tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon ac Ymchwil Cancr.

Yn dawel yn ei chartref yn Nhremadog bu farw Eirian Jones ond i ni yn y pentref adnabyddid hi fel Eirian Price, Siop Oliver, neu'r Wern, Waun Pentir, ac yn ferch i Robert ac Elinor Price. Cydymdeimlwn â'i gŵr, John a'r plant a'u teuluoedd, a hefyd â'i brodyr a'i chwiorydd Dafydd, Alan, Heulwen a Delyth ac yn chwaer hefyd i'r diweddar Deiniol, Elfyn a Katie. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor a derbynwyd rhoddion tuag at Hospis yn y Cartref.

Canu yn y Côr

Eleni eto braf oedd gweld rhai o enethod y pentref yng nghôr Ysgol Dyffryn Ogwen yn y gwasanaeth cymunedol yng Nghapel Jerusalem, Bethesda. Roedd Megan Williams, Katie Davies a Seren Jones yn canu yn y côr ond Gwen Williams yn methu â bod yn bresennol oherwydd anhwylder. Da iawn chi genod, cafwyd gwasanaeth da eleni eto ac yn sicr 'roedd yn brofiad i chi pan oedd y tri chôr yn canu ar y diwedd.

Arddangosfa hen luniau

Fe fydd Cynrig a Cadi yn y Neuadd fore Sadwrn, Ionawr 20fed o 11 y bore tan 3 o'r gloch y pwn. Dewch a'ch lluniau yno i gael eu sganio ar gyfer yr arddangosfa Ddydd Sadwrn, Mawrth y 3ydd.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Meurig Williams, 1 Bro Rhiwen ac Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i chi eich dau a gobeithio i chi gael hwyl ar y dathlu.

Dymunaf Flwyddyn Newydd Dda i'n darllenwyr. Fe fyddai fy mam yn sôn o hyd am gasglu Calennig, arferiad a oedd wedi marw allan pan oeddwn i'n blentyn. Fe fyddai'n ddiddorol clywed gan rai a fyddai'n mynd o dŷ i dŷ ar Ddydd Calan. Cofiaf am yr Wylnos a gynhelid yn yr hen neuadd ar Nos Calan. Oes atgofion?

Derbyn Tystysgrif

Mae Gareth Williams, Caeau Gleision, yn gweithio yn y caffi yn Ysbyty Gwynedd ac un bore yn ystod Mis Rhagfyr, heb yn wybod iddo roedd nifer o aelodau Clwb Y Llewod Dinas Bangor yno gan iddo gael ei enwebu am ei gyfraniad i'r gymuned. Roedd aelodau o'r teulu a ffrindiau yn bresennol gan i Mr



Neville Jones aelod o'r Clwb ein hysbysu. Yn sicr y mae Gareth yn llwyr deilyngu y dystysgrif yma gan ei fod yn brysur iawn yn y pentref, mae ei gyfraniad i'r Neuadd yn arbennig, mae'n dod i blygu Llais Ogwan yn fisol, yn dosbarthu nifer dda o gopiau ac yn werthwr calendrau heb ei ail. Dechreuodd ei ddiddordeb yn y Llais pan ofynnodd John Huw Evans, rai blynyddoedd yn ôl bellach, am un i ddosbarthu yn ei le a Gareth oedd y cyntaf i wirfoddoli. Mae'n hynod o gymwynasgar ac yn gweld pan mae unrhyw un angen cymorth. Yn ogystal mae'n aelod ffyddlon o Gapel Pisgah, Clwb Rhiwen a'r Clwb tennis bwrdd. Llongyfarchiadau i ti Gareth a diolch i'r sawl a wnaeth dy enwebu, – mae dy deulu a'th ffrindiau yn hynod falch ohonot.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00

ORIAU AGOR

Llun – Gwener 18:00 – 23:00

Sadwrn 15:30 – 00:00

Sul 13:00 – 16:00 a 20:00 – 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Ionawr

21: Boreol Weddi

28: Cymun Bendigaid

Chwefror

4: Boreol Weddi

11: Cymun Bendigaid

18: Boreol Weddi

25: Cymun Bendigaid

Pob gwasanaeth yn dechrau am 9.30yb

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Alan Davies a’r teulu, gynt o Dyddyn Canol, Mynydd Llandegai, yn eu profedigaeth o golli Bronwen – gwraig, mam, nain a hen nain annwyl iawn.

Te Crempog

Cynhelir Te Crempog ddydd Mawrth, Chwefror 13, am 2.00. y prynhawn.

Newyddion Capel Shiloh

Mae’r gwasanaethau yn Shiloh am 5 o’r gloch bob Nos Sul ac ar fore Gwener , rhwng 10 o’r gloch a 12 o’r gloch, bydd Drws Agored ar gyfer paned, sgwrs a chwmni. Croeso mawr i bawb i’r Oedfaon ac ar fore Gwener.

Ionawr 21 – Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Ionawr 28 – Y Parchedig Philip Barnett, Swydd Efrog

Chwefror 4 – Y Parchedig Richard Gillion
Chwefror 11 – Y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon

Chwefror 18 – Y Parchedig Cledwyn Williams, Bangor

Chwefror 25 – Canon Idris Thomas, Dinorwig

Dathlu’r Nadolig yn Shiloh

Cafwyd dau gyfarfod bendithiol iawn yn Shiloh yn ein cyfeirio ni i gyd tuag at uchafbwynt y Nadolig.

Pnawn Sul, Rhagfyr 17, trefnwyd Oedfa Deulu yng nghwmni ieuenctid y capel gyda rhai rhieni yn cymryd rhan. Trefnwyd yr Oedfa gan Christine Morris Jones a daeth ein gweinidog, Y Parchedig Richard Gillion, i ganu rhai caneuon Nadoligaidd gyda’r gitar. Canodd Aziliz Kervegant ddwy gân a chafwyd datganiad

ar y delyn gan Gwenno. Bu darlenniadau a chanu carolau yn cael eu ledio gan Huw, Myfi, Nel, Gwenlli, Iestyn, Aziliz, Gwenno ac Esme, a braf iawn oedd croesawu un arall o ieuenctid Shiloh adref o Brifysgol Birmingham, sef Luke Crowe, sydd ar ei flwyddyn gyntaf yn astudio Hanes. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd gwledd Nadolig a rhannwyd anrhegion i’r ieuenctid fu’n cymryd rhan. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad a dymunwyd Nadolig Llawen gan flaenor y mis sef Eirwen Williams. Cyfeilyddion yr oedfa oedd Christine Morris Jones a Wyn Williams.

Nos Sul, Rhagfyr 24, daeth cynulleidfa deilwng i ddathlu’r Nadolig gyda gwasanaeth a drefnwyd gan Eirwen a Wyn Williams, Tyddyn Dicwm. Dewiswyd darnau pwrpasol i’w darllen gan nifer o’r aelodau a therfynwyd gyda Swper yr Arglwydd yng nghwmni ein gweinidog, Y Parchedig Richard Gillion. Diolch am baratoi, Eirwen a Wyn.

Anfonwyd cofion at nifer o aelodau sydd yn methu mynychu’r oedfaon oherwydd gwaeledd /henaint a dymunwyd iddynt i gyd wellhad a chryfder i wynebu’r gwanwyn a dychwelyd i’r gwasanaethau.

Mae nifer o’r aelodau wedi bod yn cwyno yn ddiweddar a rhai wedi bod mewn ysbytai. Bu David Ellis Jones eto am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac felly Elfed Jones, Bethesda , sydd yntau wedi bod yn bur wael yn ddiweddar. Cofiwn am ein blaenor hynaf, sef Mrs Edith Hughes, Erw Faen, a fethodd ddod i’r capel yn ystod y misoedd diwethaf. Meddyliwn hefyd am Mrs Valmai Evans, Bryn Cul gynt, a Mrs Lilian Richardson, Ffordd Tanrhiw, y ddwy mewn Cartrefi Gofal. Anfonwn ein cofion atynt.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Dylan a Lucy Griffiths, ar enedigaeth eu merch fach ar ddechrau mis Rhagfyr, sef Georgina Lily Griffiths. Mae Dylan yn fab i Anwen Griffiths a’r diweddar Tom, Cysgod y Parc, Sling, ac felly mae Anwen yn Nain am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

Llongyfarchiadau i Liam a Fflur Hogan, Dolwern, 41 Tal y Cae Tregarth ar enedigaeth eu plentyn cyntaf ar 20fed o Ragfyr, 2017 sef merch fach o’r enw Lŵsi Fflur Wynn Hogan.

Llongyfarchiadau hefyd felly i Alwyn ac Alison Lloyd Ellis, Dolwern, 41 Tal y Cae, Tregarth ar ddod yn nain a thaid.

Dymuna Liam a Fflur ddiolch yn fawr i’w cymdogion, ffrindiau a theulu am yr holl ddymuniadau caredig ac anrhegion i Lŵsi Fflur.

Nant Ffrancon

Sheila Ann Williams

Hunodd Sheila, o Preswylfa, Rhes Glan Rafon, Capel Curig, yn dawel yng nghwmni cariadus ei theulu yn Ysbyty Llandudno, yn 77 mlwydd oed, ar Tachwedd 22ain, 2017.

Dymuna Emlyn ei gŵr, a’i phlant Gwynfor, Bryn a Mai, ddiolch o galon i bawb am eu cardiau a’r geiriau caredig yn eu colled, yr holl alwadau ffôn, yr ymweliadau a’r cyfraniadau ariannol. Mae hyn oll wedi bod o gymorth mawr i ni fel teulu mewn cyfnod anodd ac ‘rydym yn gwir werthfawrogi y cymorth a gawsom.

Roedd cyfanswm y cyfraniadau yn £835.00 ac fe rannwyd y swm hwn yn gyfartal er cof am Sheila rhwng Tŷ Gobaith ac Ambiwlans Awyr Cymru.

Bydd colled mawr ar ei hôl, a bydded iddi orffwys mewn heddd.

Carneddi

Gair o Ddiolch

Dymuna Victor Roberts, Cilfodan, ddiolch yn fawr i’r teulu, cyfeillion, heddlu, Caffi Coed y Brenin, a staff Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd, am bob cymorth a dderbyniodd pan gafodd ddamwain ar ei ffordd i’r Stryd Fawr fore Mawrth, 12 Rhagfyr.

Ymgymmerwr adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Ysgol Tregarth

Pantomeim

Gan eu bod wedi ymddwyn mor dda yn ystod y tymor, bu disgyblion Blwyddyn 1 i 6 yn Venue Cymru, Llandudno yn gwyllo pantomeim ‘Peter Pan’ ddiwedd y tymor. ‘Roedd yn bantomeim llawn hwyl, gyda llawer o dynnu coes y gynulleidfa, digon o jôcs gwirion a chanu a dawnsio gwerth chweil. Cafodd y disgyblion andros o amser da a phawb wedi mwynhau.

Cyngerdd Nadolig

Ar ôl wythnosau o ymarfer a pharatoi gan y plant, cynhaliwyd cyngerdd Nadolig llwyddiannus dros ben yng nghapel Shiloh. ‘Roedd thema’r sioe yn seiliedig ar gorachod Siôn Corn yn teithio o amgylch y byd yn chwilio amdano. Yn ôl y gymeradwyaeth a gafwyd ar ddiwedd y perfformiad ‘roedd y gynulleidfa yn amlwg wedi mwynhau. Diolch i Jones and Whitehead am eu cymorth gyda’r llwyfan, i swyddogion Capel Shiloh am eu cydweithrediad, ac i’r rhieni

am ddarparu gwisgoedd gwerth chweil!

Siwmperi Nadolig

Penderfynodd y Cyngor Ysgol ofyn i blant yr ysgol wisgo siwmperi Nadolig er mwyn casglu arian tuag at elusen Achub y Plant. Casglwyd £93.30 ar y diwrnod – diolch yn fawr iawn i bawb.

Dathlu’r Nadolig yn yr ysgol

Cafwyd cinio Nadolig gwerth chweil wedi’i baratoi gan staff y gegin eto eleni, a phawb wedi bwyta gormod! Bu cynnwrf mawr at ddiwedd y dydd pan gyrhaeddodd Siôn Corn yr ysgol i weld yr oll ddisgyblion. ‘Roedd y plant wrth eu boddau yn cael dawnsio, chwarae gemau a bwyta llond bol yn y parti.

Disgo Nadolig

Cafwyd disgo Nadolig llwyddiannus iawn eleni. Diolch o galon i’r Cyfeillion a oedd wedi gweithio’n galed iawn i sefydlu pwyllgor a threfnu’r disgo, bwyd, diod ac ymweliad



gan Siôn Corn. Diolch i chi i gyd am gefnogi. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod eto i drefnu digwyddiad arall yn fuan - croeso cynnes i bawb.

Ymweliad â Siôn Corn

Cafodd Dosbarth Idwal brynhawn hyfryd yn ymweld â Siôn Corn yn Llanberis. ‘Roedd

pawb wedi mwynhau cyfarfod y dyn ei hun a chael cyfle i ddweud pa anrheg ‘roedden nhw’n gobeithio ei gael ganddo. ‘Roedd yn gyfle hefyd i ni gael dweud wrth Siôn Corn bod pawb wedi bod yn blant da iawn drwy’r flwyddyn! Cafwyd amser ardderchog, a phawb wedi mwynhau’n fawr iawn.

Chwaraeon

Wu Shu Kwan



Mae’r dosbarthiadau Bocsio Cic Tsieineaidd ym Methesda a Thregarth yn mynd o nerth i nerth. Ethan Thomas enillodd dlws y Myfyriwr Gwrywaidd Gorau gyda thlws y Myfyriwr Benywaidd Gorau yn mynd i Harmony Wilson. Enillwyd y wobwr am y “Breaker” Gorau gan James Fitzpatrick a Brian Jones oedd y Cynorthwywr Gorau!

Os hoffech gael eich hyfforddi gyda ni, dewch draw i Ddosbarth Neuadd Ogwen ar ddydd Mercher neu i Ddosbarth Canolfan Gymunedol Tregarth rhwng 6.30 a 8.30yh. ‘Does dim angen hyfforddiant blaenorol. Os nad ydych yn ffit, mae Wu Shu Kwan yn ffordd naturiol i chi ddod i ffitrwydd. Felly byddwch yn iachach, ac fe wnewch ffrindiau newydd yn y Flwyddyn Newydd. Neu dewch i wylïo!!

Dyma lun o’r dosbarth.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach, Coed y Parc,
Bethesda, LL57 4YW
☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Yr Eglwys Unedig

Ar ddydd Sul, Rhagfyr 17, cynhaliwyd dau wasanaeth arbennig yn y capel. Yn y bore, yr Ysgol Sul a Chlwb yr Ifanc oedd yn cynnal eu Gwasanaeth Nadolig hwy. Daeth cynulleidfa deilwng iawn i’w cefnogi, a chafwyd unawdau, darlenniadau, deuawdau, a phartïon graenus dros ben, yn ogystal â pherfformiadau ardderchog gan y plant i gyd mewn côr. Diolch i Lowri, Menai, Fflur, Angharad, Linda, Caren a Beti Rhys am eu paratoi mor drylwyr. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd parti, gydag ymweliad gan Siôn Corn – a diolch i Alwenna ac Elfed am eu cyfraniadau gwerthfawr hwythau.

Gyda’r nos, cynhaliwyd y Gwasanaeth Cymunedol arferol, a bu’r cyfan yn fodd i lenwi’r capel â naws yr Ŵyl. Hyfryd oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn, a diolch i Menai am y trefniadau unwaith eto.

Y Gymdeithas

Llywyddwyd y cyfarfod gan Rhiannon, a da oedd gweld nifer mor dda wedi troi i mewn. Gwasanaeth Nadolig a gafwyd, wedi’i drefnu gan Ceri, gydag aelodau o’r pwyllgor yn cymryd rhan mewn darlenniadau a charolau, sef Ceri, Joe, Luned, Olwen, Heulwen, Angharad a Rhiannon. Minnie oedd ein cyfeilyddes. Cafwyd paned a mins pei ar y diwedd o dan ofal Beryl, Carys, Heulwen a Minnie. Diolch iddynt i gyd am eu parodrwydd i gymryd rhan, ac yn arbennig i Ceri am drefnu’r cyfan. Diolch hefyd i Heulwen a Rita am addurno’r capel ar gyfer y Nadolig.

Noswyl Nadolig

Gweinyddwyd y Cymun, gan Y Parchedig R O Jones, mewn gwasanaeth hyfryd i’n paratoi ar gyfer yr Ŵyl.

Y Clwb Celf

Bydd y Clwb yn ailddechrau’n fuan – croeso cynnes i chwi i ymuno â ni.

Llenwi’r Cwpan

Cofiwch am y baned bob bore Iau, rhwng 10 a 12 o’r gloch – dewch atom am gwmni da a sgwrs hyfryd!

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau i’r rhai



sydd yn methu ymuno â ni yn y gwahanol weithgareddau, yn eu mysg Mr Joe Evans, Mrs Eirlys Jones a’r Parchedig John Owen. Mae nifer hefyd o dan annwyd trwm, ac anfonwn ein cofion gorau atoch i gyd.

Hoffai swyddogion a blaenoriaid yr Eglwys ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i’n holl aelodau a ffrindiau, gan ddiolch i bob un ohonoch a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd i gynnal y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Cyhoeddiadau’r Sul
Ionawr
21: Y Parchedig Dafydd Ll Hughes (10)
Trefniant Mewnol (5)
28: Cyfarfod Eglwysig (10) Y Parchedig Gwenda Richards (5)
Chwefror
4: Trefniant Mewnol
11: Y Parchedig Pryderi Llwyd Jones
18: Trefniant Mewnol
25: Mr Gwilym Williams

Gwasanaethau Eglwys Crist Glanogwen
Gwasanaethau dros y Gaeaf:
Sul cyntaf yn y mis; 11.00 y bore - Cymun Bendigaidd Cymraeg
Ail Sul y mis: 11.00 y bore - Cymun Bendigaidd Cymraeg
3ydd Sul y mis: 11.00 y bore - Cymun Bendigaidd Cymraeg
4ydd Sul y mis: 11.00 y bore - Cymun Bendigaidd Dwy-ieithog
Bob Bore Mercher: 10.30 y bore - Cymun Bendigaidd a phaned
Croeso cynnes i bawb!
Am ymweliad neu Gymun Cartref, cysyllter â’r Parchedig Christina McCrea ar 01248 372249

Gair o ddiolch
Dymuna Mrs. Arfona Edwards, Maes y Garnedd, ddiolch yn fawr iawn i holl

aelodau’r teulu, cyfeillion a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 23 Rhagfyr.

Ysbyty
Treuliodd sawl un gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar, a da deall bod rhai wedi dod gartref ac yn gwella. Cofion cynnes iawn atoch, ac at bawb sy’n sâl gartref. Mrs. Gwen Davies, Tanysgafell; Mr. Joe Evans, Glan Ffrydlas; Mr. John Roberts, Ffordd Pant; Mr. Owie Williams, Maes y Garnedd; Mrs. Buddug Hughes, Ffordd Carneddi; Mr. Elfed Jones, Ffordd Ffrydlas; Mr. Alan Lynch, Adwy’r Nant; Mr. Victor Roberts, Cilfodan.

Cydymdeimlo
Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar, ac ‘rydym yn anfon ein cofion a’n cydymdeimlad atoch i gyd:-
Maria a Calvin a’r plant, Angharad, Bethan, Rhiannon a Gethin. Maria wedi colli ei thad, sef Mr. John Beeby, Bangor, ar 10 Rhagfyr.
Mrs. Dilys Edwards, Ffordd Coetmor, Gareth a Beryl. Wedi colli ei chefnid yn Bethel cyn y Nadolig.
Mr. a Mrs. Andrew Smith a’r teulu, Ffordd Bangor. Collodd Andrew ei frawd, David, ym Mae Colwyn, yn 64 oed.
Mr. John Dore a’r teulu, Garneddwen. Colli ei ferch, Sandra, o Penrhos, Bangor, ar ddydd Nadolig, yn 47 mlwydd oed.
Mrs. Joan Griffith a Sheryll, Glanffrydlas, wedi colli mab a brawd, Mr. Stephen John Griffith o Rhes Jâms, Braichmelyn, yn 61 oed . Bu farw ar 12 Rhagfyr ac fe gynhaliwyd ei angladd yn Amlogfa Bangor ar 22 Rhagfyr.

Llwyddiant Cerddorol
Llongyfarchiadau i Danial Roberts, 16 Glanogwen, ar lwyddo “gyda theilyngdod” mewn dwy arholiad yn ddiweddar. Yr arholiadau oedd:- Gradd 2

am ganu'r piano, a Gradd 1 mewn theori cerddoriaeth. Hyfforddir Danial gan Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd, Bethesda, a threfnwyr yr arholiadau oedd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

Dau Achlysur i'w Cofio

Ar nos Fercher, 6 Rhagfyr, yn Eglwys Crist Glanogwen, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Ysgol Dyffryn Ogwen. Yn dilyn gair o groeso gan y Prifathro, Mr. Dylan Davies, cafwyd noson o ganu a darlenniadau o safon uchel iawn. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion, i bawb fu'n trefnu, ac yn arbennig i'r athrawes gerdd, Mrs. Delyth Humphreys.

Ac ar ddydd Iau, 14 Rhagfyr, roedd disgyblion “Arlwyo a Llety-garwch” Ysgol Dyffryn Ogwen wedi darparu Te Nadolig ardderchog ar gyfer holl gymdeithasau'r fro yn neuadd yr ysgol. Unwaith eto, diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso, y te a'r adloniant gwyach.

Llwyddiant

Gwelir Shona Mary Roberts o Fethesda



yn derbyn £3000 gan yr Athro John Hughes, Is-ganghellor Brifysgol Bangor. Mae Shona yn gyn-ddisgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen ac erbyn hyn, mae'n astudio Peirianeg Electronig ym Mhrifysgol Bangor. Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Peirianeg Electronig ac Ysgoloriaeth Teilyngdod iddi ar ôl iddi ragori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad y Brifysgol.



Ganrif i fis hwn

ER COF

ROBERT HENRY EVANS

Milwr Cyffredin 266411

"D" Coy 1st/6th Bn.,

Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig

A fu farw 7 - 1 - 1918

Yn 25 ml. Oed

Mewn coffadwriaeth

Alexandria (Hadra) War Memorial

Cemetery

Aifft

Mab Henry a Ellen Evans

53, Braichmelyn, Bethesda

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon
i'r Llais)

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.
 YR IARD, FFRDD STESION, BETHESDA,
 GWYNEDD LL57 3NE
 eboost: sales@jrscaffolding.co.uk
 Ffôn/Ffacs:
01248 601754
 07770 568743 (symudol)

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Siân Gwennllian
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch
AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwennllian@cynulliad.cymru

Ysgol Dyffryn Ogwen

Dymuniadau Gorau

Wedi bron ugain mlynedd o wasanaeth yn yr ysgol, ‘rydym wedi ffarwelio efo Mr Dafydd Roberts, Pennaeth Adran y Gymraeg. Mae cenedlaethau o ddisgyblion wedi cael eu hysbrydoli ganddo dros y blynyddoedd trwy ei frwdfrydedd dihafal at y Gymraeg fel pwnc, ac wrth gwrs ei flaengaredd yn datblygu platfformau digidol i roi’r Gymraeg ar flaenau bysedd ein disgyblion. Mae ein dyled iddo yn enfawr, - pob lwc iddo yng nghan nesaf ei yrfa.

Ymweliad Blwyddyn 6

Bu holl ddisgyblion blwyddyn 6 yr ysgolion cynradd yn yr ysgol am ddiwrnod yn profi amrywiaeth o wersi. Yr oedd yr athrawon o’r ysgolion cynradd yn hael iawn eu canmoliaeth i’r ddarpariaeth.



Disgyblion blwyddyn 6 yn perfformio

Gwasanaeth Carolau

Roedd yn wych gweld yr ysgol yn cynnal Gwasanaeth Carolau Nadolig gydag Eglwys Glanogwen yn llawn ar nos Fercher, Rhagfyr 6ed. ‘Roedd naws arbennig i’r 28 eitem i ddathlu’r Nadolig, yn unawdau, darlleniadau a pherfformiadau gan bartïon a chorau. Pleser oedd gweld bron iawn pawb o ddisgyblion blwyddyn 7 yn cyfrannu cymaint i’r noson; saith unawdydd, côr o gant a pharti o fechgyn yn mwynhau eu hunain yn morio canu. Diolch arbennig i Mrs Delyth Humphreys, Pennaeth Cerdd yr ysgol am hyfforddi, arwain a rhoi’r rhaglen at ei gilydd.

Te prynhawn Nadolig Ysgol Dyffryn Ogwen 2017

Croesawyd dros wyth deg o’r henoed lleol am luniaeth ysgafn a gwledd o adloniant. ‘Roedd y lluniaeth wedi’i baratoi gan grŵp Lletygarwch blwyddyn 10, a bydd eu perfformiad yn cyfrif tuag at eu cymhwyster lefel 2 BTEC. Diolch i fusnesau lleol am gyfrannu tuag at y bwyd a’r raffl, sef Tesco, Mabinogion, Spar a Llechwedd Meats. Heb eu cyfraniad hwy ni fuasem wedi gallu cynnal y te Nadolig.



Mwynhau’r Te prynhawn!



Grwp Lletygarwch blwyddyn 10

Gwasanaeth Nadolig

Ar nos Sul, Rhagfyr 17 cafodd yr ysgol gyfle i ymuno yn nathliadau’r gymuned yn y gwasanaeth carolau yng Nghapel Jerusalem. Cyflwynodd y côr merched y caneuon ‘Hafan Gobaith’ gydag Owain Morgan yn cyfeilio a ‘Bendigedig’ o dan arweiniad Owain Morgan, efo Thalia Lichtenstein ar y soddgrwth a Gwydion Rhys yn cyfeilio. Cafwyd Unawd Piano gan Gwydion Rhys ac unawd Suo Gân gan Elen Wyn gydag Owain eto’n cyfeilio. Daeth y gwasanaeth i ben yn fawreddog trwy gyd-ganu ‘Seiniwn Ein Moliant’ gan Menai Williams gyda Chôr y Penrhyn a Chôr y Dyffryn. ‘Roedd hyn yn brofiad gwefreiddiol i’r disgyblion.

Gwahoddiad i’r Senedd

Bu tri gofalwr ifanc a Ms Glenda Parry yn y Senedd yng Nghaerdydd yn ddiweddar i fynychu digwyddiad yn y Senedd i gydnabod y cyfraniad ardderchog y mae ysgolion yng Nghymru yn ei wneud i adnabod a chefnogi gofalwyr ifanc mewn addysg.

Casglu Arian Siwmperi Nadolig

Diolch i bawb am gyfrannu tuag at ddiwrnod siwmpwr Nadolig 2017. ‘Roedd yr arian a godwyd yn mynd tuag at elusennau lleol.

Pantomeim

Bu holl ddisgyblion blwyddyn 7 yn gweld perfformiad o’r pantomeim ‘Peter Pan’ yn Llandudno cyn gwyliau’r Nadolig. ‘Roedd yn berfformiad lliwgar, bywiog a swnllyd, yn unol â thraddodiad y pantomeim Nadoligaidd, ac fe gafodd y disgyblion a’r staff fore difyr iawn. Diolch i’r adran Saesneg am drefnu.

Rygbi Gogledd Cymru dan 18

Llongyfarchiadau i Efa Williams ac Elin Owen ar gael eu dewis i garfan dan 18 Rygbi Gogledd Cymru i chwarae yn erbyn Tîm y Scarlets yn ddiweddar ym Mae Colwyn.

Rygbi Bechgyn dan 13

Ysgol Friars 12 – Ysgol Dyffryn Ogwen 36. Sgoriodd Osian Davies 4 cais, Osian Moore 1 cais a Gethin Jones 1 cais, - gwyich hogia!

Rygbi Genethod dan 18

Da iawn tîm rygbi genethod dan 18 am ennill plât mewn twrnamaint yn Nant Conwy ar y 1af o Ragfyr. ‘Roedd y gemau i gyd yn gystadleuol, gyda rhedeg cryf a thaclo ffyrnig!

Pêl-droed Genethod blwyddyn 9 a 10

Da iawn genethod blwyddyn 9 a 10 yn nhwrnamaint pêl-droed yr Urdd. Diolch i Efa Williams blwyddyn 12 am helpu i’w hyfforddi.

Cwmni Pendraw

2071 – Sioe amgylcheddol

Beth yw'r ffordd orau o gyflwyno trafodaeth am newid hinsawdd i gynulleidfa theatr? Dyna'r her y mae cwmni theatr Cwmni Pendraw wedi'i gosod iddo'i hun.

Mae'r Cwmni, sydd yn arbenigo mewn cyflwyno hanes a gwyddoniaeth i'r theatr, yn teithio o amgylch Cymru gyda 2071, prosiect theatr amgylcheddol aml-gyfrwng, a fydd yn teithio ym mis Ionawr a Chwefror 2018 gan ymweld â **Stiwidio, Pontio, Bangor, ar ddydd Mawrth 6 Chwefror am 11.00 (ysgolion) & 7.30. Tocynnau: 01248 382828 neu pontio.co.uk**

Mae'r Cwmni yn awyddus i berfformio o flaen myfyrwyr ysgolion a cholegau yn ystod y dydd. Cysylltwch â Casi Wyn: casi.pendraw@gmail.com am ragor o wybodaeth am hyn.

Mae'r Cwmni wedi cyfieithu ac addasu drama sy'n seiliedig ar eiriau gwyddonydd newid hinsawdd sydd ymysg arbenigwyr blaenllaw'r byd yn y maes. Mae'n adolygu ei fywyd a'i yrfa ac yn edrych ar sut fyd y bydd ei orwres yn ei etifeddu yn 2071. Mae'r cynhyrchiad wedi'i ddisgrifio fel sioe sydd yn 'torri tir newydd yn y theatr Gymraeg.'

Yr actor adnabyddus, Wyn Bowen Harries, sydd yn cyfarwyddo ac yn chwarae'r brif ran yn 2071 (drama wreiddiol gan yr Athro Chris Rapley a Duncan Macmillan), a'r addasiad gyda delweddau a cherddoriaeth a chaneuon newydd wedi'u cyfansoddi gan Angharad Jenkins a Gwilym Bowen Rhys. Mae'r sioe hefyd yn torri trwy 'bedwaredd wal' y llwyfan i gynnwys y gynulleidfa yn y perfformiad.

Fel yr esbonia Wyn Bowen Harries: "Yn 2071, Mae'r Athro Chris Rapley yn dweud wrthym mai fel *region unknown to man* y disgrifiwyd yr Antarctig yn yr atlas yr oedd ganddo pan yn blentyn, ond erbyn hyn mae gennym doreth o wybodaeth am ein byd yn ei holl gymhlethdod.

Er enghraifft, cafwyd cyfnod hir o dymheredd sefydlog, gweddol lonydd o ran newidiadau hinsawdd yn ystod y cyfnod a welodd ddatblygiad dynoliaeth a ddechreuodd 12,000 o flynyddoedd yn ôl. Ni newidiodd lefel y môr fwy na 0.2mm y flwyddyn. Ond yn y ganrif ddiwethaf cododd y lefel 1.8mm bob blwyddyn ac erbyn heddiw mae wedi codi ddwywaith cymaint, sef 3.3mm y flwyddyn. Er nad yw hyn yn



Wyn Bowen Harries mewn perfformiad o 2071: Gwaith ar y Gweill

swnio'n llawer, mae hyn yn bwysig ac yn arwyddocaol. Bellach mae lefel y môr wedi codi bron 20cm. Mae hyn yn wir yn dangos bod cydbwysedd, balans deinamig, y system hinsawdd wedi'i aflonyddu.

Er mai pwnc dwys sydd yma, mae ein storïwr yn gorffen ar nodyn cadarnhaol – bod gennym gyfleoedd i ymateb i'r her sy'n ein wynebu, ac rwy'n gobeithio y bydd ein cynulleidfa yn gadael y theatr yn meddwl am newidiadau y gallan' nhw eu gwneud i gyfrannu at ddyfodol ein planed anhygoel."

Mae'r prosiect wedi bod ar droed ers peth amser, gyda fersiwn cynnar: '2071: Gwaith ar y Gweill' wedi'i berfformio yng Nghaernarfon a Bethesda, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd. Tîm creadigol Cwmni Pendraw ar gyfer 2071 yw – Perfformwyr: Wyn Bowen Harries, Angharad Jenkins (Calan), Gwilym Bowen Rhys (Bandana); Siôn Eirwyn Richards (fideo) ac Aled Hughes (Cowbois: sain).

Cyswllt: cwmnipendraw@gmail.com neu: 07786992355/07940966879

gair neu ddau

John Pritchard

Ar Daith

Cystal i mi gyfaddef ddim. Ar y funud olaf un yr wyf yn dechrau sgwennu'r golofn hon. Ac oherwydd hynny mi wnes i ystyried ailgylchu un o'r hen erthyglau a gyhoeddais rywle arall, ar ddechrau blwyddyn arall. Ond er chwilio a chwilio, mi fethais â dod o hyd i erthygl addas am fod pob un a welais yn cyfeirio at ryw ddigwyddiad penodol neu ryw berson y bu sôn amdano ar droad y flwyddyn yr ysgrifennwyd yr erthygl. Waeth i mi heb â sôn ar ddechrau 2018 am araith Barack Obama yn angladd Nelson Mandela nac am y Gemau Olympaidd sydd ar ddod i Lundain ymhen chwe mis na hyd yn oed am yr hofrennydd melyn a fu'n hedfan uwch y pentref bob dydd dros gyfnod y Nadolig. Mae'r erthyglau hynny wedi dyddio, a byddai'n amlwg i bawb mai cawl eildwym fyddai o'ch blaen pe byddwn yn eu defnyddio eto.

Mae'r blynyddoedd wedi gwibio heibio. Mae'r hofrennydd melyn wedi diflannu; mae angladd Mandela'n hen hanes ac Obama wedi gadael y Tŷ Gwyn; ac mae'r Gemau Olympaidd wedi bod yn Llundain a Rio ers i'r erthyglau hynny gael eu sgwennu. Ac erbyn hyn mae hyd yn oed ddigwyddiadau'r misoedd a'r wythnosau diwethaf wedi mynd. Nid yw amser yn oedi, ac nid yw bywyd yr un ohonom yn aros yn union fel yr oedd y llynedd na'r wythnos ddiwethaf na hyd yn oed ddod. Nid heb reswm y mae credinwyr ar hyd yr oesoedd wedi sôn am y bywyd Cristnogol fel taith.

Erbyn hyn, wrth gwrs mae pawb 'ar daith'. O'r cantorion a'r dawnswyr ar raglenni teledu i'r rhedwyr a'r beicwyr ar y maes chwarae, mae pawb 'ar daith'. O'r dwys i'r digrif, mewn pob math o wahanol sefyllfaoedd, mae pawb 'ar siwrnai'. A bod yn onest, rwyf wedi alaru â chlywed pobl yn sôn am y peth, yn arbennig y bobl hynny sy'n sôn am daith (sydd yn fy marn i mae'n debyg) yn arwynebol a gwag.

Ond ar ddechrau blwyddyn, mae'n werth ail gydio yn y darlun o'r bywyd Cristnogol fel taith. Mae pob dydd yn newydd a gwahanol. Mae'r llwybr yn medru bod yn anodd ar brydiau. Mae yna lawenydd a siomedigaethau ar y ffordd. Mae yna waith i'w wneud a bendithion i'w profi. Wyddom ni ddim beth a ddaw i'n hwynebu'r un dydd. Ond gwyddom na fydd rhaid wynebu'r daith ar ein pen ein hunain, gan fod Iesu Grist yn cydgerdded â ni bob cam. Ac fe wyddom fod yna ben draw i'r daith, ac mai'r nefoedd a phresenoldeb Duw ei hun yw hwnnw.

O ddydd i ddydd eleni, bydd Cristnogion yn parhau ar y daith honno mewn ffydd, gyda hyder ac yn nerth Duw ei hun.

Nyth Y Gân

Trochwr
(Mwyalchen y Dŵr)

Mor llonydd ac mor lluniaidd edrycha'r
Hen drochwr yn waraidd;
Yn ei flys fe dry yn flaidd
A herio'r dyfroedd oeraidd.



Ar Gerdyn Nadolig
Llun o gae yn y gaea', a'r ddafad
Mor ddof yn yr eira;
Bu'i oerfel hyd y borfa
Wrth gefn y tŷ a'i blu'n bla.

Direidi Plant
Tân glo a fu ymhobman
Flynyddoedd maith yn ôl
Ac yn y grât mor hwylus
Chwareuai ef ei rôl.

Llafurus iawn oedd cynnau
A chadw'r tân a'i fflam
Fel na bo neb o'r teulu
Yn derbyn unrhyw gam.

Ond cam a gadd un teulu
Fu'n trigo yn y fro
Pan roddwyd darn o lechen
Ar botyn corn ryw dro.

Roedd to y bwthyn hwnnw
A'i redfa at y lân
Yn temptio'r hogia' gwirion
I'w gyrraedd, tewch a sôn!

Ymhen ychydig amser
Y tad a'r fam a'r plant
A welid yn ffoi allan
O'r tŷ fel dŵr y nant,

Am hir yn tagu buont
Â'u 'sgyfaint llawn o fwg
Yn syllu ar y llechen
Gan feddwl am blant drwg!

Machlud
Mae'r llain heno'n gain i gyd, yn euraidd
Yn oriau y machlud,
Pelen gron yw hon o hyd,
Mae yno ond am ennyd.

Dafydd Morris

Marchnad Ogwen

Blwyddyn Newydd Dda i holl gwsmeriaid
a stondinwyr Marchnad Ogwen a
gobeithio y bydd 2018 cystal â 2017.

Llongyfarchiadau i Carys Parry,
Glanogwen ar ennill taleb gwerth
£50 i'w gwario yn y Farchnad. Mae
Carys yn gwsmer ffyddlon ac yn llawn
haeddu'r wob. Mae croeso i unrhyw
gwsmer ymuno â'r cynllun 'cardiau
ffyddlondeb' - sef y cerdyn glas. Os nad
ydych yn gyfarwydd â'r drefn, ewch at yr
Ysgrifennydd ar Stondin Cardiau Maes
Melyn i gael cerdyn ac eglurhad ar sut i'w
ddefnyddio.

Croeso mawr i Gwrw Ogwen sydd wedi
ymuno â'r Farchnad yn barhaol. Mae cyfle
i chwi brynu pecyn Cwrw Ogwen bob mis
o hyn ymlaen.

Eglwys Glanogwen sy'n cynnal y
Stondin Elusen ym Marchnad Chwefror.
Y mis nesaf sy'n rhydd yw mis Mawrth.

Nid ydym yn cynnal y Stondin 'Un Tro'
ar hyn o bryd oherwydd diffyg lle.

Cynnyrch Chwarel Goch

Dyma Stondin Colette Price sy'n byw
yn Chwarel Goch, Sling. Mae enw

ardderchog ac addas i'r Stondin yma gan
mai cynnyrch o'r ardd yn ei chartref yw
sylfaen holl eitemau stondin Colette. Mae
ffrwythau megis cyrens duon, mafon,
cyrens coch ac yn y blaen yn cael eu
defnyddio i greu diodydd iachus - gydag
ychydig iawn o siwgr. Mae jamiau a
chyffraith (preserves) wedi eu gwneud
gyda'r ffrwythau a llysiau sydd yn yr
ardd. Os ydych am geuled (curd) lemwn
neu geuled eirin Mair gwerth chweil
- wel dyma'r Stondin! Wrth gwrs, nid
yw Colette yn tyfu lemwns, ond mae'n
defnyddio wyau ieir sydd yn pigo a
chrafu yn Chwarel Goch. Yn yr haf, bydd
gan Colette ychydig o lysiau ffres - yn
syth o'r ardd i'r Stondin. Mae mêl ar gael
o bryd i'w gilydd hefyd.

Ydi, mae Cynnyrch Chwarel Goch
yn sicr yn ateb holl ofynion Marchnad
Ogwen - cynnyrch gwirioneddol leol a
ffres. Dewch heibio!

Mae'r Farchnad nesaf ar Chwefror
10fed o 9.30 tan 1 o'r gloch. Mae
gwybodaeth lawn ar ein gwefan **www.
marchnadogwen.co.uk** ac ar **facebook** a
Twitter.



Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddiwedd mis Tachwedd aeth dau aelod
o'r dyffryn i gyfarfod o bwyllgor gwaith
Plaid Lafur Arfon yng Nghwm y Glo, i
baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf; a hefyd i
drafod cyflwr yr NHS yn lleol a chodiad pris
cinio ysgolion Gwynedd.

Yna, ym mis Rhagfyr, aeth nifer o
aelodau'r gangen i gyfarfod ar gyfer pob
aelod o Blaid Lafur Arfon ym Mangor, yn

bennaf i dderbyn adroddiadau o gyfarfod
Fforwm Polisi Plaid Lafur Cymru gan
swyddogion yr etholaeth.

Cynhelir Bore Coffi yng Nghanolfan
Cefnfaes ar ddydd Sadwrn, Mawrth 10fed, a
bydd cyfarfod nesaf y gangen ar yr ail Nos
Fercher ym mis Mawrth (y 14eg).

Dymuna swyddogion y gangen Blwyddyn
Newydd Dda i BAWB !

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Dathlu'r 21 oed

Yn ystod Rhagfyr dathodd Elis Ogwen Jones, Yr Ardd Fawr, ei ben-blwydd yn 21oed. Llongyfarchiadau mawr iti, Elis. Gobeithio iti gael diwrnod arbennig yn dathlu gyda'r teulu a ffrindiau. Dymunwn y gorau i ti i'r dyfodol

Gwellhad buan

'Rydym yn anfon ein cofion at Keith Jones, Ciltrefnus, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Bellach mae wedi dychwelyd adref. Pob dymuniad da iti am adferiad buan.

Gadael y Gerlan

Mae Mair ac Oliver Pierce, gynt o Ffordd Gerlan, wedi symud o'r pentref. Ymddiheuriadau na fu inni sôn am hyn yn y Llais ynghynt. Dymunwn y gorau iddynt yn eu cartref newydd yn Ffordd Coetmor.

Cartref newydd

Gadael y Gerlan oedd hanes Sandra Renshaw, Stryd y Ffynnon, hefyd. Dymunwn y gorau iddi hithau yn ei chartref newydd yng Nglan Conwy.

Profedigaeth

Daeth newyddion trist iawn i ni i gyd dros yr Ŵyl, pan glywsom am farwolaeth un o ferched y pentref, a hithau'n ddiwrnod Nadolig. 'Roedd Sandra Dore yn byw yn Ffordd Gerlan am flynyddoedd cyn symud i lawr i Fangor ychydig yn ôl. Er nad oedd wedi dioddef iechyd da yn ystod ei hoes, yr oedd bob amser yn gwenu, ac yn barod iawn am sgwrs. Bu'n hynod o ffodus i gael gofal arbennig iawn gan ei mam am flynyddoedd, gyda'r ddwy yn mynd ar wyliau i wahanol rannau o'r byd. Dangoswyd pa mor boblogaidd oedd Sandra yn y ffaith i lawer ddod i'w gwasanaeth angladdol yn y Gadeirlan ym Mangor. 'Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i'w mam, Glenys, ei thad, John, ei brawd, Jamie, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth fawr.

Blwyddyn newydd dda

Dymunwn flwyddyn newydd dda i chi i gyd, ac anfonwn ein cofion at bawb o'r ardal sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Dymunwn y gorau i bob un ohonoch yn 2018.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Marwolaeth

Collwyd y person hynaf o'r ardal ddiwrnod cyn ei phen-blwydd yn gant oed, sef Mrs Myfanwy Morris, gynt o rif 3, Braichmelyn, ond a oedd wedi bod mewn cartref nyrsio yn Ynys Môn ers blynnyddoedd. Cofiw'n amdani fel gwraig dawl a pharchus, a ffyddlon iawn i'w heglwys. Bu'n athrawes Ysgol Sul ar nifer ohonom, a bu ein parch tuag ati yn fawr. Cydymdeimlwn â'r teulu, a'i ffrindiau ym Mraichmelyn, yn eu colled.

Gwaeledd

Mae Mrs Eirlys Jones, rhif 4, Braichmelyn, yn Ysbyty Eryri ers rhai wythnosau yn dilyn codwm yn ei chartref. Deallwn ei bod yn gwella'n raddol, ac anfonwn ein cofion annwyl ati. Mae nifer yn yr ardal yn dioddef o annwyd trwm, ac anfonwn ein cofion gorau atynt hwythau i gyd.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r trigolion!



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

◆ PROFION M.O.T. ◆

GWASANAETH ◆ ATGYWEIRIO
◆ TEIARS A BATRIS ◆
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

 **600723**
Ffacs: 605068

RHAG-HYSBYSIAD

Bwrlwm Haf

Diwrnod Mawr o Hwyl i'r Ardal

Pnawn Sadwrn, Gorffennaf 7fed, 2018
ar y caeau rygbi, Dôl Ddafydd, Bethesda
Fedrwech chi dynnu rhaff, taflu welingtons, cwffio clustogau, gwthio ffrind mewn berfa a phethau llawn hwyl felly?

Y bwriad ydi cael 5 tîm i gynrychioli gwahanol rannau o Ddyffryn Ogwen i gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiol gystadlaethau doniol (i oedolion, ond bydd cystadlaethau i'r plant hefyd!). Pnawn llawn sbort!

Dyma'r timau:

OGWEN ISAF

Capten: Graham Davies
(taffgraham@yahoo.co.uk)
Is-gapten: Sian Elin

OGWEN UCHAF

Capten: Arwel Llechid Owen
(llechid@yahoo.co.uk)
Is-gapten: Donna Watts

TREGARTH A MYNYDD LLANDYGAI

Capten: Catrin Doyle
(catrin_doyle@btinternet.com)
Is-gapten: Glen Sanderson

RACHUB A LLANLLECHID

Capten: Michael Williams
(michaellambchops@hotmail.co.uk)
Is-gapten: Iona Robertson

GERLAN A BRAICHMELYN

Capten: Mari Emlyn
(mariems@hotmail.com)
Is-gapten: Dylan Williams

Nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur/
calendr rŵan! A beth am gymryd
rhan dros eich ardal? Holwch eich
capteiniaid!

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Diolch

Hoffai Elliot Tugwell ddiolch yn fawr iawn am y rhoddion caredig iddo ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed.

Ti a Fi Rachub

Ar ddechrau blwyddyn newydd, carai Keilly Tugwell ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi Ti a Fi Rachub y llynedd, yn arbennig i'r rheiny sy'n helpu ac wedi bod yn hael gyda rhoddion. Diolch o galon i'r Clwb Criced a Bowlio am eu parodrwydd i gael defnyddio'r lle. Gobeithio i bawb gael Nadolig gwych, a gobeithio eich bod yn barod i ail gychwyn ar Ionawr 12fed!

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus iawn i ti Anna Tugwell yn ddeunaw oed ar Ionawr 26ain, - mwynha'r dathlu! Cariad mawr gan y teulu cyfan.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb bnawn Mercher Rhagfyr 20fed. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd, a oedd wedi gwella ar ôl salwch. Dymunwyd Nadolig hapus i bawb. Dymunwyd yn dda i Avril ar ol cael triniaeth ar ei llygad.

Llongyfarchwyd Arfona Edwards ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Cyflwynwyd blodau iddi gan Margaret Owen ar ran aelodau'r clwb. Cawsom de pnawn i ddathlu efo hi, wedi'i baratoi gan Ceinwen a Vera. Dosbarthwyd gwobrau'r raffl a gwnaethpwyd elw sylweddol. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 17eg 2018.

Blwyddyn newydd wych!

Mae Morgan Hughes o Dregarth yn edrych ymlaen at ei flwyddyn orau erioed eleni,



gan ei fod bellach yn gallu mwynhau bywyd i'r eithaf gyda'i afu newydd. Morgan oedd y 5,000fed claf i gael trawsblaniad afu yn Ysbyty Plant Birmingham yr haf diwethaf. Dyma fo yn cyflwyno siec o £1900 i'r Ysbyty; yr elw a wnaed mewn noson caws a gwîn yn y Clwb Criced yn ddiweddar. Blwyddyn newydd dda i ti Morgan!

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn dyner iawn â theulu Dewi Wyn Jones (Dewi Bryn) a fu farw'n heddychlon yn ei gartref, 6 Ffordd Tan y Bwlch, ddechrau mis Rhagfyr - mab annwyl y diweddar Glenys a Cecil Jones, a brawd i Dwynwen a John.

Gwellhad buan

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Geraint Jones (Ffordd Tanybwlech a'r Hen Dderwen Frenhinol/Royal Oak) sydd wedi bod mewn ward gofal dwys yn Ysbyty Gwynedd ers wythnosau. Dymunwn wellhad buan iawn i chi, gan obeithio eich gweld yn ôl y tu ôl i'r bar yn fuan.

Ffiw

Deallwn fod nifer o'n darllenwyr wedi bod yn sâl efo annwyd trwm sy'n debyg i'r fffiw, ac sy'n parhau am dair wythnos neu fwy. Gobeithio eich bod i gyd yn well erbyn i'r rhifyn hwn gyrraedd eich tai.

Datrysiad

Mae'n dda gennym weld bod problem yr eiddew rhwng ysgoldy Capel Carmel a byngalos yr Hen Ysgol wedi ei datrys erbyn hyn.

Te bach

Cynhelir te bach yn ysgoldy Capel Carmel rhwng 2.30 a 4.00yp ar ddydd Llun olaf mis Ionawr (y 29ain) gyda raffl, bwrdd gwerthu a lluniaeth. Hefyd cynhelir clwb gwau yno ar yr 22ain a phob pythefnos wedyn rhwng 2 a 4yp. Croeso cynnes i bawb.

Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i David Antony Jones yn 40 oed ar Ionawr 5ed! Gobeithio i ti gael hwyl yn dathlu!

Blwyddyn newydd dda i bawb!

CAPEL CARMEL

Trefn Gwasanaethau

Ionawr 21: Cyfarfod Gweddi.

Ionawr 28: Gweinidog

Chwefror 4: Gweinidog (Cymun)

Chwefror 11: Parchg. Dafydd Wyn Wiliam.

Chwefror 18: Parchg. Dylan Rhys Parry (2.00yp)

Oedfaon am 5.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb. Ysgol Sul am 10.30 yb.

Clwb Dwylo Prysor, Nos Wener am 6.30yh. Dydd Llun, 29 Ionawr: Te Bach . 2.30 - 4.00. Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Nadolig ar nos Sul, Rhagfyr 17, yng nghwmni'r plant a'r bobl ifainc. 'Roedd cyfraniad pob un ohonynt yn ardderchog, a chafodd pawb fendith o wrando arnynt. Diolch iddynt i gyd am eu cyfraniadau graenus, i bawb a fu'n gymorth mewn unrhyw fodd, ac i'r rhieni ac aelodau am eu cefnogaeth. Casglwyd £200.00 tuag at ymgyrch Nadolig Cymorth Cristnogol ar gyfer De Swdan.

Ar nos Sul, 31 Rhagfyr, cafwyd oedfa



Y plant lleiaf



Y plant hynaf

fendithiol gyda'r Parchg. Dafydd Coetmor Williams yn arwain. Cafodd ei gynorthwyo gan dair chwaer a ddarllenodd y carolau, sef Millie, Margaret ac Eira. Cafwyd deuawd hyfryd gan Efa a Lois. Mrs. Helen Wyn Williams oedd yn cyfeilio. Helen hefyd oedd llywydd y mis, ac fe ddiolchodd i baw a fu'n helpu i gynnal yr Achos yn ystod 2017. Dymunodd flwyddyn newydd dda i'n Gweinidog a'i deulu, ac i'r holl aelodau. Diolchwn ninnau i Helen am ei holl waith yn 2017.

CLWB HANES RACHUB

Cafwyd noson ddifyr iawn yn y Clwb Hanes unwaith eto'r mis hwn. Mrs Helen Williams oedd wedi trefnu'r cyfarfod, ac roedd naws Nadoligaidd iawn i'r cyfan. Cafwyd eitemau cerddorol o safon uchel gan ddau sy'n byw yn Rachub sef Stephanie Owen a William Roberts. Mae'r ddau yn ddisgyblion yn Ysgol Dyffryn Ogwen, - Stephanie yn y chweched dosbarth a William ym mlwyddyn 7. Canodd y ddau ddwy gân yr un, ac roedd y gynulleidfa wedi gwirionï! Pob dymuniad da i'r ddau yn y dyfodol. O dan arweiniad Mrs Helen Williams, ymunodd y gynulleidfa i ganu 'r garol 'Wele Gwawriodd' ac emyn dôn 'Rachub', oherwydd y cysylltiadau lleol â'r cyfansoddwyr, ac yn wir mae hyn wedi datblygu'n dipyn o draddodiad blynyddol erbyn hyn! Clywsom, hefyd, recordiad o lais Madam Tellini, neu Megan Llechid yn canu dwy gân. Diolch i Mr Ken Griffiths am ddarganfod y record ac i Mr Now Jones am drosglwyddo'r cyfan mor grefftus ar gryno ddisg.

Yn ogystal â'r adloniant, cawsom fwyd ardderchog wedi ei baratoi gan staff Caffi Coed y Brenin, Bethesda, ac mae'n rhaid dweud ei bod hi'n wledd heb ei hail! Diolch yn fawr i Karen a'r criw am baratoi'r cyfan mor hwylus, ac i Mrs Helen Williams am drefnu'r noson.

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, - Ionawr 31, 2018, - Noson o dan ofal aelodau'r Clwb.

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

**Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru**

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

L. Sturrs
a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

**Oriel Cwm**

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS



SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

**SIOP
OGWEN**

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T
a Hwdis Cowbois, Creffttau, DVDs,
Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr,
cofiwch am Siop Ogwen am eich holl
anghenion siopa! Galwch draw neu
rhowch ganiad i'r Siop am ragor o
wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i
Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Myfyrwyr 1

Soniais y troeon d’wetha am y ‘Moduron Porffor’ a dylwn dd’eud gair neu ddau am y trosiad Cymraeg hwnnw o ‘Purple Motors’. Bydd nifer o drigolion y Dyffryn yn cofio am y Blue Motors a’r Grey Motors hefyd, a’r cwmnïau hynny, fel Purple Motors, wedi cymryd eu henwau oddi wrth liwiau’r llechi lleol (yn ôl pob sôn). Ond sut y daeth y ‘Moduron Porffor’ i fod? Er mwyn ceisio ateb y cwestiwn hwnnw, dylwn grwydro am ychydig i sôn am arfer Mr Tom Davies i roi gwaith dros wyliau’r haf i fyfyrwyr lleol, ac ymhlith y rheini, cofiaf enwau Dr Gwynedd Penrhyn Jones, Lorne House (brawd Glyn, y meddyg a arbenigai yn afiechydon yr henoed) a Dilwyn Jones (Tregarth, lle’r oedd ei dad yn weinidog) ac yn fy nghyfnod i ar y bysys roedd Vincent Roberts (Adwy’r Nant), Glanville Jones (Glanogwen), Derfel Gruffydd (Garneddwen) a minnau.

Roedd Derfel yn Gymro pybyr o argyhoeddiad dwfn ynghylch y Gymraeg a byddai bob amser yn dweud y drefn wrthym, gyda phob cyfiawnhad, pe baem yn meiddio llithro gair Saesneg i ganol ein sgwrs Gymraeg. A fo a fathodd yr ymadrodd ‘condaethwr achysurol’ am ‘temporary conductor’ a hynny ar y ‘Moduron Porffor’. Wedi gyrfa lwyddiannus yn athro a phrifathro mewn ysgolion cynradd, bu Derfel farw yn llawer rhy ifanc, yn 54 oed, ar Awst 27, 1994, a chladdwyd ef ym Mynwent Coetmor.

Byddwn yn aml yn tynnu coes Derfel druan drwy anfon cardiau post cellweirus ond eto’n ddigon diniwed ato. Byddwn yn eu prynu mewn siop yn

Llandudno, sgwennu rhyw bwt bach ysgafn ar y cefn (mewn llawysgrifen na ellid fyth ei chysylltu efo fil!), a’u rhoi wedyn i un o yrwyr lorïau Harri Roberts i’w postio rywle ar eu teithiau. Byddwn bob amser yn eu cyfeirio i sylw Derfel, gyda chyfeiriad Castle House arnynt, lle’r oedd Mrs Mary Davies (gwraig Mr Tom Davies), yn cadw siop, wrth gwrs! Ac, yn naturiol, doedd hi ddim yn hapus efo petha’ fel’na’n cyrraedd ei siop! Ond cheidw’r diafol mo’i was yn hir, meddai’r hen air, a daeth yn ddydd Gwener arna’ inna’ pan chwaraeais un tric yn ormod ar yr hen Derfel!

Ar ddiwedd pob un o’r teithiau rhwng Bethesda a Bangor, byddai’n rhaid cofnodi’r nifer o docynnau a werthwyd ar daflen a elwid yn ‘waybill’. Un diwrnod, canfûm waybill wedi’i adael yn un o’r bysys. Un Derfel oedd o! Daeth rhyw syniad dieflig i’m pen! Euthum â’r waybill i’r siop at Mrs Davies a dweud wrthi fod rhywun wedi dod o hyd iddo yn y Bull Inn. Wel, sôn am stŵr a ddilynodd. Anfonwyd am Derfel (gan i Mrs Davies ganfod yn syth pwy oedd piau’r waybill) ac, fel y cefais wybod gynno fo wedyn, cafodd ffrae iawn am fod mor esgeulus. Torrodd fy mhen yn syth a d’eud, ‘Yr Elwyn’na sydd y tu ôl i hyn!’ ‘Wel, mae’n hen bryd iddo fo gael ei gardiau, felly,’ meddai Mrs Davies. ‘Ydi, wir,’ atebodd Derfel, ‘mae o’n anfon rhai ata i o hyd.’ A chefais innau alwad i fynd o flaen fy ngwell yn y man – ond bu f’addewid i roi’r gorau i anfon cardiau post i’r siop yn ddigon i mi allu cadw fy ngwaith!

I’w barhau

Cwmni Drama’r Llechen Las

(gyda chydweithrediad
Clwb Drama Crawia a Neuadd Ogwen)

yn cyflwyno

Digon o Sioe!

PANTO newydd sbon i’r teulu cyfan

Nos Wener, 9 Chwefror, 7.00pm

Pnawn Sadwrn, 10 Chwefror, 2.30pm

yn Neuadd Ogwen, Bethesda

Oedolion: £6 Plant: £3

Tocynnau ar gael o Siop Ogwen

+ www.neuaddogwen.com

“Mae’n wirion bost!”

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Dilynwch ni ar trydar

@Llais_Ogwan



GWASANAETH GLANHAU HUGHES

5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)

Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.

Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV

Golchi ‘meddal’ – patios, “decking” a llwybrau

Golchi toeau ystafelloedd gwydr

Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250

pamela-stwnch@hotmail.co.uk

Y Rhyfel Byd Cyntaf

Darllenais gyda diddordeb golofn Andre Lomozik ‘Collwyd yn y Rhyfel Mawr’ fis Tachwedd gan fod un o’r enwau yn gyfarwydd i mi, sef brawd Nain, William Henry Williams, a meddyliais efallai y byddai ei hanes o ddiddordeb i’r darllenwyr. Nid fod cymaint â hynny o hanes, gan iddo farw yn 23 oed, ond bu’n ddigon o ysbrydoliaeth i mi ysgrifennu nofel amdano.

Ym 1894 y ganed William Henry ddwy flynedd wedi fy nain (Grace), ac er iddynt gael eu magu yng Nghaernarfon, roedd taid William wedi bod yn gigydd ym Methesda yn y siop sydd bellach ddrws nesaf i Neuadd Ogwen. Symudodd teulu William Henry i fyw i Stryd Fawr Bethesda yn 1906, i ‘dŷ mawr trafferthus’ chwedl Nain, uwchben Banc y Midland.

Is-reolwr banc oedd tad William, felly dim ond i lawr y grisiau oedd yn rhaid iddo fynd i gyrraedd ei waith.

Am reswm na chaf fyth wybod, gwirfoddoli i fynd i’r rhyfel wnaeth William Henry rhyw fis wedi i’r rhyfel gychwyn, ac yntau yn ugain oed. ‘Roedd yn llysieuwr, - peth prin yn y cyfnod hwnnw. Mae modd crynhoi ei fywyd mewn llinell o waith Williams Parry:

‘I Ffrainc, i’r Aifft, i Ganaan, i hir hedd’.

O’r Ffrainc, aeth ymlaen i’r Aifft, a marw yn Bersheba, Palestina ar Dachwedd 6ed, 1917.

Yno y’i claddwyd, ond mae ei enw ar garreg fedd ym mynwent Dyneio, Pwllheli. Yno y claddwyd ei fam ddwy flynedd ynghynt. Bu hi farw wedi gwenwyn yn y gwaed wedi iddi ymweld â’r deintydd. Dywedodd llawer ei bod yn fendith iddi hi fynd o’i flaen, neu ni fyddai wedi gallu ymdopi â’r golled. Roedd wedi colli mab arall pan oedd hwnnw yn dair oed.

Bu Nain (Grace Hughes, gwraig R.E.Hughes, prifathro Cefnfaes) fyw tan 1977, a bu ei chwaer, Gladys Williams fyw tan ei bod yn 92, ym 1990. Bu’r ddwy fyw ym Methesda, ac roedd milltir union yn eu gwahanu – Nain yn byw yn Rhos y Nant, a’i chwaer yn Nôl Goch.

Pan fu farw Gladys, daethom o hyd i waled ei thad ymysg ei heiddo. Yn y waled yr oedd llythyr gan William Henry – llythyr wedi ei anfon o’r Holy Land. Wedi sylwi ar ddyddiad yr amlen – 24 Oct 17, dyma sylwi mai hwn oedd y llythyr olaf iddo ei sgwennu. Bu hynny yn ddigon o gymhelliad i mi sgwennu fy nofel.

Ers hynny, ‘rydw i wedi dod o hyd i ragor o bethau yn ei lawysgrifen, - ‘roedd yn amlwg yn gartwnydd. Ar gerdyn post i ‘The One and Only Clodia Mary, Bethesda’, mae llun hapus o filwyr yn gorymdeithio, ci du yn eu harwain, a baner fawr ‘Welcome Home’, a’r pennawd ‘When the boys come home!’ Hwn oedd y dyddiad oedd William Henry yn edrych ymlaen ato, ond nid oedd i ddigwydd am flwyddyn arall. Erbyn hynny, byddai bywyd byr William wedi dod i ben. I mi, mae’r cerdyn bach yma yn cyfleu tristwch y Rhyfel Mawr a effeithiodd ar gymaint o deuluoedd.

Angharad Tomos



Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg,
Talybont ☎ 353500

Ysbyty

Anfonwn ddymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Mrs Beryl Ishmael, 5. Bro Emrys, sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd. Cafodd Beryl ddamwain gas yn ystod y tywydd garw cyn y Nadolig, a thorri ei phenglin. Clywsom bod Idris Thomas, Dolhelyg, wedi bod yn yr Ysbyty. Dymunwn wellhad buan iddo!

Braf yw gweld Neville Fearnley yn cerdded llwybrau’r fro unwaith eto, yn dilyn ei driniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Blwyddyn Newydd well iti, Neville!

Tra’n dymuno Blwyddyn Newydd Dda, a’r iechyd gorau posibl, i ‘n darllenwyr i gyd yn Nhalybont a’r ardal, apeliwn yn garedig am eitemau o newyddion i’w cynnwys yn ‘Y Llais’ yn ystod 2018.

Cydymdeimlo

Drwg iawn oedd clywed am farwolaeth Gwen Owen ym Mangor (Gwen Hughes gynt o Gae Gwigin, Talybont) ar 23. Rhagfyr. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll.

Capel Bethlehem

Oedfaon
Ionawr 21: Y Parchedig. D. Lloyd Hughes, Caernarfon; Ionawr 28: Y Parchedig. Dafydd Coetmor Williams. Chwefror 4: I’w gyhoeddi; Chwefror 11: Gweinidog; Chwefror 18: Mr. T. Alun Williams, Caernarfon. Oedfaon am 2 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i’n Ffair Nadolig flynyddol ddechrau mis Rhagfyr. Gwnaed elw o £670.00.

Ysgol Sul

‘Roedd pawb wedi mwynhau’r Oedfa Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul ar 17 Rhagfyr. Diolch i’n gweinidog, y Parchedig John Pritchard, am ei gymorth, ac i bawb fu ynglŷn â’r oedfa, y parti a’r banad. Gwnaed casgliad o £131.50 tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol. Mae’r cyfraniad hwn yn werth £263.00 i Gymorth Cristnogol oherwydd bod Llywodraeth Prydain yn ychwanegu punt am bob punt a gasglwyd.

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 5 Y nifer o dai sydd gan y dug a'i nai ar eu stâd (5)
- 8 Swnio fel pe bai trigolion Paris yn mwynhau'r llysieuyn bach yma (2,6)
- 9 Un gwlanen, un poced, un llestri, beth ydyw ? (5)
- 10 Yr ieuengaf o genod eich merch (5,3)
- 11 Rhwymo (5)
- 14 Dychrynlyd, fel tad y brenin Arthur efallai (3)
- 16 Cystadlu am y goron ? Cofia roi hwn ar waelod dy gerdd (6)
- 17 Geiriau estron weithiau dan y plu ar fathodyn rygbi Cymru (2,4)
- 18 Tegan plentyn (3)
- 20 Rydw i'n eu hoffi gystal ag unrhyw ffrwyth, yn feddal a melys (5)
- 24 Wedi drysu'n llwyr, af at Anti Besi am sbel fach (8)
- 25 Hoff weithgaredd T. G. Walker a Ted Breeze Jones gynt (5)
- 26 Iaith leiafrifol iawn yn ne-orllewin Lloegr (8)
- 27 Rhagfarn, a methu ystyried barn na safbwynt neb arall (5)

- 4 Huawdl i ramantu am ei theulu, heb eu gweld erstalwm (6)
- 6 Suddo a setlo ar wely'r môr neu'r afon (8)
- 7 Os yn Amsterdam, rydych yno (8)
- 12 Dwy bedol mewn cadair fregus i glywed y galon (8)
- 13 Llafn o olau (8)
- 14 Bwyd llwy boreol (3)
- 15 "Torth a --- o eda wen, Dyna ydoedd neges Gwen" (rhigwm) (3)
- 19 "Cyfoeth nid yw ond -----" (6)
- 21 Heb boeni rywsut am bren caled (5)
- 22 Ers 1865 afon 'Gymreig' ym mhen draw'r byd (5)
- 23 Cadarnhau a chefnogi mewn pwyllgor (5)


ATEBION CROESAIR Y NADOLIG 2017

AR DRAWS

- 1 Pcedu, 4 Dwyfron,
- 9 Canfyddiad, 10 Felin, 11 Llorp,
- 12 Ifan, 13 Deall 16 Ufuddhau,
- 18 Unigol, 20 Iasoer, 22 Lleidiog,
- 25 Egni, 26 Adwy, 27 Asia,
- 31 Metel, 33 Caledfwlch,
- 34 Y Faenol, 35 Llofnod

I LAWR

- 1 Picellau, 2 Canwr, 3 Dwyn,
- 4 Dadfachu, 5 Ysfa, 6 Rôl,
- 7 Nantlle, 8 Lliwiau,
- 14 Emoji, 15 Ohio, 17 Ugain,
- 19 Iaith, 21 Radical, 22 Llwydlo,
- 23 Gwarchod, 24 Ffermdy,
- 28 Siwan, 29 Clên, 30 Adio,
- 32 Tua



Yr unig wall a gafwyd oedd 'Llwydle' yn lle 'Llwydlo'. Diolch i'r rhai a anfonodd gyfarchion a dymuniadau da, a dymunaf innau 2018 fendithiol i bob un ohonoch.

Cafwyd atebion cywir y tro yma gan : Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont; Gareth William Jones, Bow Street; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Catherine Aran, Bethesda; Elin A. Pritchard, Rachub; Dafydd Evans, Penisarwaun; Dilys Parry, Rhiwlas; Dulcie Roberts, Tregarth; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Gwenda Roberts, Rhosmeirch

Y cyntaf o'r het am y wobr oedd ymgais Adrian Poulton, Adwy'r Coed, Pentir, Bangor, Gwynedd LL57 4EA. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Atebion erbyn **Ionawr 31**, 2018 i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Atebion erbyn 31 Ionawr, 2018 i 'Croesair Ionawr'

Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

PEN Y CEUNANT ISAF

Y BWTHYN TÉ

www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa

Llanberis

LL55 4UW

01286 872 606

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, Neville Hughes
600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Ysgol Llanllechid

Gweithgareddau'r Nadolig

Bu cryn brysurdeb ar ddiwedd y tymor a chafwyd pob math o weithgareddau, gan gynnwys partïon, ymwelwyr a chinio Nadolig gwerth chweil. Un o'n llwyddiannau eleni, heb os, oedd y Ffair Nadolig! Penderfynwyd newid dipyn ar y drefn, ac fe gynhaliwd y Ffair ar nos Wener! Roedd hi'n noson llawn hwyl, a chorachod Sion Corn yn chwilio am fwy o wobrau yn ystod y noson! Diolch i Anti Gillian a'i thîm yn y gegin am y bwyd bendigedig, gan gynnwys y twrci a'r mins peis! Braf gweld y gymuned gyfan yn dod at ei gilydd a braf gweld nifer o stondinwyr o'r ardal hefyd mor barod i'n cefnogi! Diolch i bawb am noson hyfryd ac i Owain am fod mor barod i ddod draw i chwarae'r trwmped i ni!

Peintio Moch!

Mae yna hwyl i'w gael wrth beintio mochyn, boed o wedi ei wneud o glai neu beidio! Mae o hyd yn oed yn well pan mae rhywun yn cael peintio mochyn sydd yn digwydd bod yn gadw-mi-gei hefyd! Y Nadolig hwn, cafodd deugain o foch bach clai eu peintio'n bob lliw o dan haul a phob un ohonynt yn sgleinio fel swllt newydd!

Trên Siôn Corn Llanberis

Wel dyna i chi gynnwrf fu wrth i'r plantos fynd ar daith trên Siôn Corn i gael cyfarfod y dyn ei hun! Dechreuodd yr hwyl pan gafodd y plantos eu cyfarch gan gorachod Siôn Corn, ac 'roedd yn rhaid chwilio'n ddyfal am Carwyn y Corrach, a oedd, yn ôl rhai, yn stelcian yn y gwrychoedd! Llawenydd oedd cael cyfarfod Siôn Corn, ac 'roedd y wen ar ŵyneb pob un o'r plant wrth ddod allan o'i ogof gydag anrheg hyfryd yn dweud cyfrolau!

Sioe Caban Hud - Pontio

"Daeth Nadolig fel arferol, daeth fel yn y dyddiau gynt..." Oeddech chi'n gwybod y gellir postio llythyr at Siôn Corn mewn blwch hud a'i yrru ar hyd y blondings i'r caban chwarel? Dyna ddaru Siân! Yno, yn y caban, 'roedd chwarelwr oedd yn gallu chwythu bargaen gyda help gan **Robin Glyn**. Yna curai gyda'i gŷn a'i forthwyl i naddu a chreu llyfr o'r graig cyn ei drochi mewn ffynnon hud gyda help **Gavin** a'i droi yn lyfr hud a lledrith. Pwy well i lapio'r anrheg rhyfeddol hudol yma i Siân na **Mared Llew**, sydd, mae'n rhaid dweud, yn dipyn o giamstar ar lapio anrhegion! Pwy feddyliai fod chwarelwr o'r hen ddyddiau yn helpu Sion Corn i wneud anrhegion Nadolig?! Stori hyfryd a syml am ferch fach a storïau o'r chwarel yn adleisio drwy'r cyfan oll.

Brenhines y Crawia

Gyda balchder yr oeddem yn gwyllo



disgyblion o Ysgol Llanllechid ac ysgolion eraill yn perfformio'n frwdfrydig ar lwyfan Neaudd Ogwen yn y sioe Brenhines y Crawiau. Braf oedd cael cyfle i ymuno â nhw yn hwyl a sbri'r Nadolig. 'Rydym yn hynod ffodus a gwerthfawfogol fod sioe Gymraeg fel hon yn cael ei llwyfannu ar ein trothwy, ac 'rydym mor falch o gael y cyfle i gefnogi! Edrychwn ymlaen at gael gweld perfformiad tebyg y flwyddyn nesaf! Llongyfarchiadau a diolch i chi i gyd!

Sioeau Nadolig

Cynhaliwyd pum sioe Nadolig i gyd, a phob un yn werth ei gweld! Cafwyd gwledd yn gwrando ar blant bach y Cylch Meithrin yn canu eu caneuon. Yna, daeth hi'n dro y dosbarth Meithrin, a braf oedd eu gweld yn rhoi hanes y Geni i ni. Yna, daeth tro blynyddoedd 1 a 2, sef dosbarthiadau Mrs Wilson a Mrs Rona Williams. Roedd hi'n braf gweld Capel Carmel yn orlawn, yn llawn o rieni a ffrindiau'r ysgol, yn cefnogi'r plantos wrth iddyn nhw berfformio i safon mor uchel! Achubwyd ar y cyfle i ddiolch i Mrs Helen Williams am ei haelioni, a chafwyd cyfle i dynnu sylw at y cydweithio hapus sy'n bodoli rhwng Capel Carmel ac Ysgol Llanllechid. Diolchwyd hefyd i Mr Dylan Davies, Ysgol Dyffryn Ogwen am gael defnyddio Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen ar gyfer llwyfannu sioe yr Adran Iau. Cafwyd noson fythgofiadwy, a'r plantos i gyd ar eu gorau wrth i Sandra Goch ddianc i'r goedwig oherwydd swyn cas dynes ddrwg o'r enw Rhosyn Coch! Yn y man, caiff ei gorfodi i briodi Cuthbert Coch, er ei bod mewn cariad gyda George Huws, peldroediwr gorau Cymru! Er mwyn cael gwared â'r swyn, 'roedd yn rhaid darganfod: plu'r barcud coch; minlliw coch; blewyn y llwynog coch a diferyn o waed y Rhosyn Coch ei hun! Sioe a hanner! Diolch i bawb am eu gwaith caled ac i'r disgyblion am roi o'u gorau i sicrhau sioe mor lwyddiannus eto eleni!

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r disgyblion wedi bod yn astudio hanes yr Iaith Gymraeg ac yn dysgu am yr holl ergydion sydd wedi dod i'w rhan ar hyd y blynyddoedd. Bu cryn drafod y ffaith mai, yn ôl y Cyfrifiad yn 2011; 562,000 o bobl oedd yn siarad Cymraeg, sef 19% o'r boblogaeth. Fel y gwyddom, y nôd erbyn 2050 yw sicrhau fod miliwn o bobl yn siarad Cymraeg! Wrth astudio ein hiaith, dysgwyd fod y Gymraeg yn deillio o'r Frythoneg, ac mae'n perthyn yn agos iawn i'r Gernyweg a'r Llydaweg. Erbyn hyn, 'rydym yn ymwybodol iawn o'r Ddeddf Uno 1536, a'i diben, sef gwneud Cymru yn rhan o Loegr, gan ddiystyru diwylliant Cymru a'i hiaith yn gyfangwbl. Wrth reswm, cafodd y ddeddf hon effaith bellgyrhaeddol ar y Cymry. Ond, daeth tro ar fyd yn 1588, pan gyfieithodd yr Esgob William Morgan y Beibl i'r Gymraeg. Er gwaethaf hyn, daeth ergyd arall, a hynny ar ffurf tri bargyfreithiwr: Johnson, Lingen a Symons. Gwnaethant arolwg ar Gymru gan deithio drwy'r wlad a chraffu ar yr ysgolion a'r ysgolion Sul. Ymddangosodd eu hadroddiad mewn llyfrau gleision ar ddiwrnod Ffŵl Ebrill 1847 ac fe'i hadwaenwyd, fel y gwyddom, yn Frad y Llyfrau Gleision. Un o'r ergydion nesaf? Wel, y Welsh Not, a chafodd y sytem hon ei chyflwyno yn 1850, a gwyddom yn dda am yr hanes hwnnw. Diolch byth am bobl fel Syr Ifan ab Owen Edwards a welodd yr anghyfiawnder ac a sefydlodd Urdd Gobaith Cymru ym 1922. Mae'r dyddiad, 1939 hefyd yn un gwerth i'w gofio, sef y flwyddyn y sefydlwyd yr ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru. Dim ond megis codi cwr y llen ydan ni wedi llwyddo i'w wneud hyd yma; mae llawer mwy na hyn i'n hanes wrth gwrs, ond' rydym yn cael blas garw yn ymbalfalu a thyrchio i mewn i'n gorffennol. Cyn cloi, rhaid crybwyll yr actor Llion Williams a ddaeth draw i'n hysgol ac a wnaeth argraff ar y plant a'r athrawon fel ei gilydd drwy ei actio medrus a chyflwyno perfformiad a fydd yn aros yn y côf am byth!

Talent Llechid

Cafwyd diwrnod o hwyl a sbri ar ddiwedd y tymor pan gafodd pob un o'r disgyblion y cynnig i gymryd rhan yn ein diwrnod: Talent Llechid. Roedd y diwrnod hwn ar ffurf ffon ddwyblyg sef yn gyntaf, cyfle i ddangos unrhyw dalent o flaen gweddill disgyblion yr ysgol; ac yn ail i godi arian at gynllun Ysgol Fynyddig Fwdlyd yn Ethiopia er mwyn cefnogi disgyblion yn y rhan honno o'r byd. Rydym yn hynod o falch fod Matthew a'i deulu yn mynd yno i weithio ac i gynorthwyo dros wyliau'r Nadolig. Llwyddwyd i godi £200 tuag at yr achos da hwn a diolch i Mr Huw Edward Jones a'r Cyngor Ysgol am drefnu'r cyfan i ni. Diwrnod gwerth chweil, wrth i ni feddwl am ein cyd-ddynion mewn amgylchiadau anodd.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57
4HU ☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Fel cynulleidfa hoffem ddymuno
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn
Nyffryn Ogwen. Heddiw, hapusrwydd ac
iechyd i chi a'ch teuluoedd.

Ailagor adeilad Sant Tegai

Bu eglwys Sant Tegai ar gau ers Storm
Ophelia ym mis Hydref ond yn ffodus
'roedd yr adeilad ar agor ar gyfer
gwasanaethau'r Nadolig. Mae'r adeiladwyr
yn brysur ar ben y to ond bydd angen llawer
mwy o waith atgyweirio yn ystod 2018.

Gwasanaeth Naw Llith a Charol

Ar fyr rybudd, bu'n bosibl glanhau ac
addurno'r eglwys mewn pryd ar gyfer
ein gwasanaeth traddodiadol o Naw
Llith a Charol ar nos Sul, Rhagfyr 27ain.
Arweinwyd yr achlysur yn ddwyieithog
gan y ficer, y Parchedig John Matthews,
a'r darllenwyr oedd Liz Bestwick, Huw
Llewelyn Jones, Edmond Douglas
Pennant, Rhian Llewelyn Jones, Y
Chwaer Julian, Morwena Bean, Janette
Roberts, Ann E. Williams a'r Parchedig
John Matthews. Yr organydd oedd
Geraint Gill. Cafwyd gwin poeth a
lluniaeth ysgafn Nadoligaidd yn Neuadd
Talgai ar ôl y gwasanaeth. Diolch yn
fawr iawn i bawb a fu'n paratoi'r eglwys
ac i'r unigolion a gyfrannodd mor hael i'r
bwyd wedyn.

Noswyl y Nadolig

Croeshawyd nifer o blwyfolion ac ymwelwyr
i'r Offeren ar noswyl y Nadolig am 11.15 yr
hwy. Y Parchedig John Matthews oedd
yn gweinyddu a'r darllenwyr oedd Edmond
Douglas Pennant a Gwenan Llewelyn
Jones. Yr organydd oedd Geraint Gill.

Priodas

Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

i Mr a Mrs Michael Flynn ar eu priodas
ddiweddar. Un o'r pentref yw Michael yn
wreiddiol; ei fam a'i nain yn rhedeg siop
Tocker's ar y sgŵar. Roeddem yn hynod
falch fod yr adeilad ar agor ar gyfer yr
achlysur hapus!

Dymuniadau gorau

Mae sawl aelod o'r gynulleidfa yn dal i
dderbyn triniaeth yn yr ysbyty neu yn cryfhau
ar ôl gwaeeidd. Cofiw'n ein gweddïau
Hefina Chamberlain, Gwyn Edwards, Enid
Gardner, ac Audrey McSorley.

Llongyfarchiadau

Dymunwn longyfarch y Parchedig John
Matthews ar ei ymdrech i godi arian at
Ganc'r y Prostad drwy dyfu barf. Hyd yma,
mae wedi codi £425 at yr achos. 'Roedd
cryn drafodaeth ymysg yr aelodau os
oedd Y Tad John am ymuno â'r Eglwys
Uniongred a chadw'r barf! Da iawn, John,
am eich ymdrech!

Ysbyty Gwynedd

Fel yr adroddwyd yn rhifyn Rhagfyr 2017
cynhaliwyd stondin Nadolig yr eglwys yn
Ysbyty Gwynedd ar ddydd Gwener Rhagfyr
15fed pan werthwyd nwyddau a chardiau.
Diolch i bawb a fu'n cefnogi'r achlysur.
Codwyd £153 i Gronfa Atgyweirio'r Eglwys.

Raffl Santes Dwynwen a Bingo'r eglwys Nos Fawrth Ionawr 30

Mae'n draddodiad erbyn hyn i aelodau'r
eglwys werthu tocynnau raffl i ennill potel
"champagne" ar gyfer diwrnod Santes
Dwynwen. Bydd y tocyn buddugol yn cael
ei dynnu yn noson Bingo yr eglwys ar nos
Fawrth, Ionawr 30ain am 7.00 yn Neuadd
Talgai. Dewch i'r Bingo i ysgafnhau
nosweithiau llwm mis Ionawr!

Gwasanaethau Sant Tegai

Pob bore Mercher yn Sant Tegai am 9.15 y.b.
cynhelir Boreol Weddi a'r Offeren yn dilyn
am 10.15 y.b. Os ydych yn brin o amser -
ymunwch â ni am un ohonynt - mae yna
amser rhwng y ddau wasanaeth i ymadael.
Gwasanaethau ar Sul cyntaf a phedwerydd
y mis am 9.30 y.b.

Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn
y mis am 11 y.b.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Ysgol Pen-y-bryn

Cyngerdd Nadolig

Cafwyd cyngerdd hynod lwyddiannus yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar Ragfyr 18fed. Eleni, ‘roedd dau ddathliad mewn un, sef y Nadolig a’r ffaith fod Ysgol Pen-y-bryn bellach yn 80oed. Yn ystod y cyngerdd cafwyd cyfle i hel atgofion a chlywed storïau am y staff a phlant a fu. Bu’r plant yn gweithio’n rhynod o galed gyda’r ymarferion ac ‘roedd eu perfformiadau ar y noson yn wirioneddol wych! Diolch o galon i’r staff am eu gwaith diflino, i’r rhieni am eu cefnogaeth ac wrth gwrs i’r plant. Hefyd, diolch yn fawr i Ysgol Dyffryn Ogwen a’i staff am y croeso ac am gael defnyddio’r cyfleusterau. Diolch hefyd i aelodau’r Llywodraethwyr a Chyfeillion yr ysgol am helpu gyda’r raffl a gwerthu tocynnau wrth y drws.

Brenhines y Crawia

Aeth yr ysgol gyfan i Neuadd Ogwen i weld sioe Brenhines y Crawia gan griw drama Cawia. ‘Roedd y sioe yn arbennig o dda ac ‘roedd yn wych gweld perfformiadau plant o bob oedran. Yn amlwg, ‘roedd llawer iawn o waith wedi mynd i’r cynhyrchiad. Mwynhaodd pob un plentyn y sioe - wedi gwirioni gweld eu cyfoedion yn actio a chanu. Gwych!

Mentergarwch

Ar Ragfyr 8fed, cafwyd p’nawn mentergarwch hynod lwyddiannus. Wedi pythefnos brysur o gynllunio, creu a phrisio, gwelwyd llond neuadd o gynnyrch Nadoligaidd o safon, gyda’r cyfan wedi’i werthu ymhenn hanner awr! Braf hefyd oedd gweld cymaint o rieni yn dod i gefnogi; diolch yn fawr i chi. Casglwyd £609.35 o arian, gyda’r rhan fwyaf ohono’n elw. Da iawn, a diolch i bawb am eu gwaith caled.

Siwmpwr Nadolig

Cafwyd cinio Nadolig blasus iawn gan



Anti Sandra a merched y gegin – diolch yn fawr iawn i chi! Ar yr un diwrnod, ‘roedd pawb yn gwisgiog siwmpwr Nadoligaidd er mwyn casglu arian at Save the Children. Casglwyd £100.60 at yr elusen. Diolch yn fawr i chi am eich cyfraniadau.

Cyfeillion

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyfeillion ar Ragfyr 12fed, gyda chriw newydd wedi cymryd yr awenau. Braf oedd gweld criw mor frwdfrydig a llawn syniadau. Dechreuodd y Cyfeillion yn syth gyda’r trefnu, a’r syniad cyntaf oedd raffl yn ystod y cyngerdd Nadolig. Cafwyd llawer iawn o gyfraniadau i’r raffl ac ‘rydym yn ddiolchgar iawn. Diolch o galon i’r criw am roi o’ch amser i helpu’r ysgol. Edrychwn ymlaen yn fawr at y digwyddiadau sydd i ddod!



Pryd Blasus a Rhad i 3 neu 4

- 1 nionyn mawr.
- 1 pwys o friwgig (*mince*) porc.
- 2 ewin o arllwg.
- 2 lwy de o sbeis cajun (neu bowdr cyri)
- 1 tun bach o ffa pob (*baked beans*).
- 1 ciwb Oxo mewn peint o ddŵr.
- 2 foronen + 1 (wedi’i gratio).
- 8 o ffa gwyrdd + 8 *sugar snaps* (wedi’u torri).
- Llwyaid fawr o bys wedi’u rhewi.
- 6 o fadarch.
- Halen a phupur du
- Llwyaid o flawd.

Hanner ffrŵch y nionyn (wedi’i dorri’n fras), a hefyd y madarch a’r garlleg, a’u rhoi heibio.

Ffrŵch y porc mewn dipyn o olew hyd nes y bydd wedi brownio ychydig. Ychwanegwch y nionod a’r garlleg (wedi’i gratio) a’r blawd, a’i gymysgu’n dda ar wres isel am 2 funud.

Wedyn ychwanegwch y ffa pob, y sbeis a’r llysiau i gyd efo’r Oxo. Ychwanegwch fwy o ddŵr os oes angen. Ei fud-ferwi mewn sosban efo’r caead am ryw awr.

Cymysgwch datws wedi’u stwnsio efo menyn a chaws cryf (tua 2 owns o gaws wedi’i gratio).

Bydd hyn yn ddigon am ddau bryd.



Manylion Cyswllt
Cyngorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cyngorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cyngorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cyngorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cyngorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CyngorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Ysgol Abercaseg

Siwmpwr Nadolig
Diolch i Ffrindiau'r Byd am drefnu diwrnod Siwmpwr Nadolig. Casglwyd £105 tuag at Achub y Plant ac 'roedd holl blant yr ysgol yn werth eu gweld.

Cinio Nadolig a Siôn Corn
Cafwyd diwrnod o fwynhau ddiwedd y tymor. Coginiodd Anti Marian wledd Nadoligaidd i bawb a diolch yn fawr iddi hi a holl staff y gegin am eu gwaith caled. Yn ogystal â hyn cafwyd ymweliad annisgwyl, ac 'roedd wynebaw'r plant yn ddigon o sioe wrth groesawu Siôn Corn! Diolch yn fawr iddo fo a Tesco Bethesda am eu haelioni.

Brenhines y Crawia
Mwynhaodd plant yr ysgol sioe Brenhines y Crawia yn Neuadd Ogwen. 'Roedd yn braf gweld cyn-ddisgyblion - sy'n aelodau o glwb drama Crawia - yn serennu. 'Roedd llygaid pawb yn y gynulleidfa wedi'u hoelio ar y llwyfan a phawb yn canmol doniau'r plant.

Sioeau Nadolig
Wedi wythnosau o ymarfer, perfformiodd y plant meithrin eu sioe i'w rhieni yn yr ysgol. 'Roedd y neuadd o dan ei sang a phawb wedi gwirioni'n lân. Perfformiodd gweddill yr ysgol eu sioe nhw - Y



Goeden Fach Hardd - yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolch i'r holl blant am eu hymroddiadau a'u gwaith caled a diolch i staff Ysgol Dyffryn Ogwen am eu cydweithrediad.

Eglwys Glan Ogwen
Treuliodd Blwyddyn 2 fore yn Eglwys Glan Ogwen yn dysgu am arferion y Nadolig. Bu'r plant yn actio stori'r geni, yn addurno bisgedi ac yn creu addurniadau yn ymwneud â'r Wyl. Diolch i'r Tad John am y croeso.

Ymddeol
Hoffai staff, plant a Llywodraethwyr yr ysgol ddymuno'n dda i Mrs Griffiths - dirpwy'r ysgol - sydd yn ymddeol ar ôl 32 o flynyddoedd yn dysgu yn Abercaseg. Cynhaliwyd gwasanaeth ffarfél, ac 'roedd yn braf cael hel atgofioan â chyn - benaethiaid a'r Llywodraethwyr.

Diolch
Dymuna Mrs Griffiths ddiolch o waelod calon am y fraint o gael adnabod, dysgu a mwynhau cwmni plant a theuluoedd Bethesda sydd wedi bod yn rhan arbennig o'i bywyd dros y blynyddoedd. Hoffai ddiolch hefyd i bawb sydd wedi cydweithio â hi yn Ysgol Abercaseg. Mae amser wedi hedfan, a'r holl gyfnod wedi bod yn werthfawr.

Ail Lawnsiad Cell Celf ym Methesda

Yn mis Tachwedd fe ail lansiodd Cell Celf ym Methesda - gofod i ni ddod at ein gilydd, sgwrsio am syniadau peryglus dros baned a chacen, a rhoi'r byd yn ei le wrth greu celf chwyldroadol wrth gwrs!
Rydym yn creu celf er mwyn plesio ein hunain, yn ogystal ag ar gyfer ymgyrchoedd, gigs a gweithredoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.
Mewn byd lle cawn ein boddi mewn hysbysebion sydd yn ein hargymell i wario ar yr hyn nad ydym ei angen, gwneud i ferched deimlo'n hyll ac i ddynion deimlo'n annigonol, mae creu yn gallu bod yn weithred wrthryfelgar. Mae'r

hysbysebion yn gorchuddio ein tirwedd ieithyddol mewn clogyn o Seisnigrwydd cyfalafol. Bydd y Gell Celf yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell fyw, lle y caiff ei gynnal, i strydoedd ein pentrefi a'n trefi. Beth am chwistrellu ychydig o greadigolrwydd i'n hamgylchfyd?
Mae paentio sloganau, y ddefod o dynnu arwyddion i lawr a'u cyflwyno i'r awdurdodau, a meddiannu swyddfeydd pwysigion, i gyd yn weithredoedd prydferth! Credwn ni bod y ffin rhwng gweithredu a chelfyddyd creu yn un annelwig iawn. Hoffem i Gell Celf fod yn ffynhonnell i arbrofi efo'r "ffiniau" yma!

Ymunwch â ni!
Stensilo, ffansins, baneri, gludlun, dylunio graffeg, dwldo, gwau a mwy. Dewch efo'ch doniau a defnyddiau os ydych eisiau rhannu eich crefft ag eraill. 'Rydym yn edrych ymlaen at ddysgu gan ein gilydd. Estyniad modern o waith a meddylfryd Grŵp Beca yw Cell Celf.
Grŵp o artistiaid oedd yn weithgar rhwng y 70au a'r 90au oedd Beca, a greodd chwyldro mewn celf yng Nghymru drwy gyflwyno celf gyfoes wleidyddol ar yr iaith a materion diwylliannol Cymru. Fel Beca llais gweledol yw Cell Celf sydd yn galluogi cyfathrebu mwy cynhwysol

heb feirniadu safon na gallu rhywun yn yr iaith Gymraeg.
Dewch felly - mae rhywbeth i bawb o bob oed i ymuno ag ef! Cysylltwch â Heledd i wybod y cyfeiriad ym Methesda lle y cynhelir Cell Celf y mis yma: gogledd@cymdeithas.cymru
Swyddog Maes y Gogledd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
10 Stryd Plas, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1RR
01286 662 908 / 07547 654 966
"Cymdeithas o bobl sy'n gweithredu'n ddi-drais dros y Gymraeg a Chymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid"
cymdeithas.cymru/ymaelodi